Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# Y Penawdau
# Ymchwiliad i Newyddiaduraeth Newyddion yng Nghymru

Mai 2018




www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@assembly.wales**
Twitter: **@ SeneddDGCh**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# Y Penawdau
Ymchwiliad i Newyddiaduraeth Newyddion yng Nghymru

Mai 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Mae ei gylch gwaith ar gael yn: www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Bethan Sayed AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AC**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Suzy Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Siân Gwenllian AC**
Plaid Cymru
Arfon



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru
Islwyn



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Jack Sargeant AC**
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Hannah Blythyn AC**
Llafur Cymru
Delyn



**Dawn Bowden AC**
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



**Dai Lloyd AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Jeremy Miles AC**
Llafur Cymru
Castell-nedd



**Lee Waters AC**
Llafur Cymru
Llanelli

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**Argymhellion** ........ **7**

**1. Y Cefndir** ........ **10**

**2. Effaith y dirywiad mewn newyddiaduraeth newyddion fasnachol yng Nghymru** ........ **13**

**3. Newyddiaduraeth hyperleol a gwirfoddol** ........ **18**

**4. Cymorth ariannol i newyddiaduraeth newyddion** ........ **26**

**5. Cymorth anariannol i newyddiaduraeth newyddion** ........ **32**

**6. Gweithgarwch Llywodraeth Cymru** ........ **35**

**7. Cynlluniau'r BBC ym maes democratiaeth leol** ........ **40**

**8. Newyddiaduraeth newyddion yn y Gymraeg** ........ **44**

**9. Teledu lleol** ........ **46**

**Atodiad - Tystion a Thystiolaeth Ysgrifenedig** ........ **49**

# Rhagair y Cadeirydd

Dywedodd Thomas Jefferson pe byddai'n rhaid iddo benderfynu p'un a ddylid cael llywodraeth heb bapurau newydd, neu bapurau newydd heb lywodraeth, y byddai'n sicr yn dewis papurau newydd heb lywodraeth.

Mae'r wasg a'r cyfryngau rhydd wedi bod yn arwydd o gymdeithas rydd ers amser maith. Heb newyddiaduraeth ddidwyll ac annibynnol, nid yw pobl yn cael y wybodaeth lawn am yr hyn sy'n cael ei wneud yn eu henw nhw a Llywodraethau, ac ni fydd eraill sydd â phŵer yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd.

Felly, dylai'r dirywiad mewn newyddiaduriaeth newyddion fasnachol yng Nghymru beri pryder i bob un ohonom. Fel yn rhannau eraill y byd, mae cylchrediad papurau newydd yng Nghymru wedi gostwng yn sydyn yn y blynyddoedd diweddar tra bod cylchrediad ar-lein wedi cynyddu. Fodd bynnag, nid yw'r twf hwn mewn darllenwyr digidol wedi gwella proffidioldeb papurau newydd. Yn hytrach, rydym wedi gweld swyddi'n cael eu colli a phapurau newydd yn uno a chau.

Nid Cymru yw'r unig le sy'n gweld dirywiad mewn papurau newydd print traddodiadol. Fodd bynnag, mae'r cyfryngau yng Nghymru yn llai o ran maint ac yn llai amrywiol na rhannau eraill o'r DU felly mae effaith y newidiadau hyn yn effeithio arnom yn anghymesur.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn amlinellu rhai o'r prif faterion y clywsom dystiolaeth arnynt ac yn gwneud nifer o argymhellion y credwn fydd yn gallu helpu'r sefyllfa bresennol neu feithrin atebion posibl.

Rydym hefyd wedi ystyried p'un a ddylid datblygu rhyw fodel o gymorth uniongyrchol gan y Llywodraeth i ddatblygu newyddiaduraeth fasnachol. Mae anawsterau amlwg gyda hyn, gan gynnwys sicrhau annibyniaeth a rhyddid golygyddol. Er hynny, mae cyflwr ansicr newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru yn golygu y dylid rhoi ystyriaeth o ddifrif i ryw fath o gymorth i newyddiaduraeth o fudd y cyhoedd yng Nghymru.

Mae angen i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol gydnabod eu cyfrifoldebau hefyd. Dylai cwmnïau fel Google a Facebook ystyried eu cyfrifoldeb ehangach fel dinasyddion corfforaethol o ran helpu i gefnogi newyddiaduraeth o safon yng Nghymru a mannau eraill.

Rydym yn cydnabod nad oes ateb syml o ran y ffordd orau i fynd i'r afael â hyn yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn argyhoeddedig bod hyn yn fater polisi cyhoeddus dwys, y mae angen i wneuthurwyr polisi ar bob lefel, yn enwedig Llywodraeth Cymru, fynd i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth.

Bethan Sayed AC
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gydnabod yn ffurfiol fod cefnogi newyddiaduraeth sydd o fudd i'r cyhoedd yng Nghymru yn flaenoriaeth strategol ac yn hollbwysig i ddemocratiaeth yng Nghymru. ........ Tudalen 12

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru feithrin ac annog y sector hyperleol fel ffordd o annog newydd-ddyfodiaid i'r farchnad a chefnogi dulliau arloesol o ddarparu newyddiaduraeth newyddion lleol. ........ Tudalen 24

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyllid o £100,000 yn 2018-19 a 2019-20 ar gyfer cynllun cystadleuol sydd ar gael i newydd-ddyfodiaid ac i gefnogi arloesedd a chynaliadwyedd ymysg gweithredwyr cyfredol. ........ Tudalen 24

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sefydlu hybiau newyddion hyd braich a ariennir gan ddefnyddio arian cyhoeddus, yng ngoleuni diffyg hyfywedd marchnad darpariaeth newyddion lleol mewn sawl rhan o Gymru. ........ Tudalen 24

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad llawn o lwyddiant y £100,000 o gyllid unwaith y bydd y flwyddyn gyntaf o gyllid yn dod i ben i lywio penderfyniadau ynghylch sut y dylid defnyddio'r arian yn y dyfodol. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal archwiliad o'i gwariant ar hysbysiadau statudol hysbysebu, o'r swm sy'n cael ei wario gan gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac o'r swm sy'n cael ei wario gan lywodraeth leol. Yna dylai ymgynghori'n eang ynghylch a oes ffyrdd mwy cost effeithiol o roi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau statudol a sut y gellir ail-fuddsoddi unrhyw arbedion a ryddheir i gefnogi newyddiaduraeth newyddion er budd y cyhoedd. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Google a Facebook yn ystyried sut y gallant wella eu cefnogaeth i newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid defnyddio rhan o unrhyw gyllid a ryddheir trwy foderneiddio'r broses o gyhoeddi hysbysiadau statudol i greu corff tebyg i'r Knight Foundation yn yr Unol Daleithiau, sy'n cynnig cyllid cychwynnol ar gyfer sefydliadau newyddion bach newydd sbon. .......... Tudalen 31

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n ddi-oed i nodi'r newidiadau sydd eu hangen o fewn ei chymhwysedd er mwyn galluogi hysbysiadau statudol i gael eu cyhoeddi gan ddarparwyr hyperleol ac ar-lein ac i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Cynulliad yn y dyfodol yn gweithredu'r newidiadau hyn lle bo'n briodol. Dylai unrhyw arbedion a wneir o ganlyniad i gostau hysbysebu is yn sgil cynnydd mewn cystadleuaeth gael eu hailgyfeirio trwy gyllid wedi'i dargedu tuag at newyddiaduraeth er budd y cyhoedd. .......... Tudalen 31

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro i awdurdodau lleol a chyrff statudol perthnasol eraill yng Nghymru bod ganddynt y rhyddid i gyhoeddi hysbysiadau statudol ar-lein, lle mae deddfwriaeth gyfredol yn caniatáu hyn. .......... Tudalen 31

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hwyluso cysylltiad rhwng cynrychiolwyr y sector hyperleol, Media Wales a darparwyr newyddion mawr eraill i ymchwilio i feysydd lle gallent gydweithio a llunio cytundebau syndicâd. .......... Tudalen 34

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried ei benderfyniad i beidio â sefydlu fforwm cyfryngau annibynnol. .......... Tudalen 39

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, naill ai fel rhan o rôl fforwm annibynnol neu'n uniongyrchol ei hun, yn ymchwilio i fodelau busnes cynaliadwy ar gyfer newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru. .......... Tudalen 39

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, naill ai drwy sefydlu fforwm annibynnol neu'n uniongyrchol ei hun, yn adolygu Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol y BBC. .......... Tudalen 39

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod y BBC yn adolygu'r Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol ar ôl iddo fod yn weithredol am 6 mis. Dylai'r adolygiad ystyried yn llawn modelau amgen ar gyfer y gwasanaeth, gan gynnwys y "gwasanaeth gwifren" rydym wedi ei argymell yn flaenorol a hybiau newyddion. Dylai hefyd archwilio pryderon y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau lletya i ddisodli'r ddarpariaeth bresennol, yn hytrach na darparu cynnwys ychwanegol. Dylid cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad yn llawn. ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i fuddsoddiad parhaus mewn newyddiaduraeth Gymraeg ar y lefel bresennol o leiaf. ........ Tudalen 45

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Cyngor Llyfrau Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o greu hyb newyddion Cymraeg hygyrch lle gall cyhoeddiadau Cymraeg nad ydynt yn perthyn i'r BBC ac sy'n cael eu cefnogi gan Gyngor Llyfrau Cymru gyhoeddi eu cynnwys. ........ Tudalen 45

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac yn ei hannog i ailedrych ar y sector cyfryngau lleol yn ei gyfanrwydd yng ngoleuni methiant y cynllun teledu lleol i gynnig ateb hirdymor i'r diffyg lluosogrwydd a phrinder newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn y maes hwn. ........ Tudalen 48

# 1. Y Cefndir

## Cyflwyniad

**1.** Mae newyddiaduraeth newyddion fasnachol yng Nghymru yn dirywio. Mae cylchrediad papurau newydd print Cymru wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y degawd diwethaf – fel sy'n digwydd ar draws y byd - gan arwain at golli swyddi, uno papurau newydd a chau papurau newydd. Mae cylchrediad digidol wedi cynyddu'n aruthrol dros yr un cyfnod - ond cyfran fach o'r colledion a achoswyd gan y dirywiad mewn cylchrediad print fu'r elw digidol. Nid yw hon yn ffenomen hollol ddiweddar ac nid yw'n broblem unigryw i Gymru[1]. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn pryderu bod effaith y tueddiadau hyn yn anghymesur yng Nghymru oherwydd bod cyfryngau Cymru yn llai ac yn llai amrywiol na gweddill y DU. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch tranc cymdeithas ddinesig Gymreig ac etholwyr llai gwybodus sy'n gallu dal Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**2.** Yng ngoleuni hyn, cytunodd y Pwyllgor i gynnal Ymchwiliad yn canolbwyntio ar archwilio modelau newydd ac arloesol o gefnogi newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru. Nod yr Ymchwiliad oedd gweld a oedd atebion effeithiol ar gael yng nghyd-destun Cymru.

**3.** Gofynnwyd yn benodol am farn ar:

- modelau arloesol i gefnogi newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru, gan gynnwys:
  – Modelau presennol o ddarparu newyddion, yng Nghymru ac yn rhyngwladol, y gellid eu defnyddio yng Nghymru;
  – Modelau busnes arloesol mewn meysydd eraill y gellid eu cymhwyso i newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru.
- darpariaeth newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru, gan gynnwys:
  – Papurau newydd lleol a rhanbarthol;
  – Gwefannau newyddion;
  – Darparwyr newyddion hyperleol;
  – Teledu lleol

[1] Er enghraifft, gweler y papur Cyflwyniad gan Enders Analysis at y Pwyllgor ar 20 Medi 2017

- Cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer newyddiaduraeth newyddion lleol

**4.** Cyhoeddodd y Pwyllgor gais cyffredinol am dystiolaeth a chlywodd dystiolaeth lafar gan amrywiaeth o dystion hefyd. Mae rhagor o fanylion am yr ymatebion a'r rhai y clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ganddynt i'w gweld yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

## Ein Barn – Nid oes ateb amlwg na syml

Mae dyfodiad y rhyngrwyd, y cyfryngau cymdeithasol a'r dyfeisiau symudol pwerus sydd ar gael yn eang yn arwain at newidiadau eang a phellgyrhaeddol yn y ffordd y mae newyddion a newyddiaduraeth yn cael eu gweld a'u deall.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn nodi rhai o'r prif faterion yr ydym wedi cymryd tystiolaeth yn eu cylch ac yn gwneud nifer o argymhellion a all, yn ein barn ni, helpu i wella'r sefyllfa bresennol neu feithrin atebion posibl.

Wrth i ni geisio dod o hyd i fodelau newydd i gefnogi newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru, mae'n deg dweud ar y dechrau na awgrymwyd model amlwg i ni a fyddai'n mynd i'r afael yn llawn â'r newidiadau sy'n troi modelau'r gorffennol ben i waered.

Er mwyn ffynnu, mae democratiaeth angen newyddiaduraeth fywiog, luosog ac amrywiol sy'n gweithredu er budd y cyhoedd. Ar adeg pan mae newyddiaduraeth ym mhedwar ban byd yn ei chael hi'n anodd addasu i effaith y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol, nid oes ateb syml i'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r mater hwn yng Nghymru.

Mae Cymru yn bell o fod yn unigryw ond credwn ei bod yn wynebu'r amgylchedd newyddion mwyaf heriol yn y DU. Nid bai unrhyw gwmni penodol yw hyn, ond cynnyrch ystod o ffactorau hanesyddol a masnachol sy'n golygu mai Cymru, o bosibl, sydd â'r sector newyddiaduraeth newyddion cynhenid gwannaf o holl wledydd y DU.

Yn ein barn ni, mae hwn yn fater polisi cyhoeddus difrifol y mae angen i lywodraeth ar bob lefel fynd i'r afael ag ef ar frys. Mae angen i Lywodraeth Cymru fynd ati i roi blaenoriaeth uchel i'r mater hwn ar gyfer gwaith ymchwil pellach a buddsoddiad cyhoeddus pellach.

## ARGYMHELLIAD

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gydnabod yn ffurfiol fod cefnogi newyddiaduraeth sydd o fudd i'r cyhoedd yng Nghymru yn flaenoriaeth strategol ac yn hollbwysig i ddemocratiaeth yng Nghymru.

# 2. Effaith y dirywiad mewn newyddiaduraeth newyddion fasnachol yng Nghymru

## Dirywiad print; twf digidol

**5.** Mae'r prif dueddiadau o ran newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru a'r DU, sef uno papurau, colli swyddi a lleihad mewn cylchrediad print – a refeniw is o ganlyniad i hynny – wedi'u cofnodi'n helaeth, yn enwedig gan yr IWA Media Audit[2]. Mae cylchrediad print papurau newydd Cymru wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y degawd diwethaf – fel sydd wedi digwydd ledled y byd - gan arwain at golli swyddi, uno papurau newydd a chau papurau newydd. Mae traffig ar-lein ar wefannau newyddion wedi cynyddu'n aruthrol yn ystod yr un cyfnod – er bod refeniw ar-lein yn bell o ddigolledu sefydliadau newyddion am y refeniw a gollir o werthu copïau print o bapurau newydd. Mae hwn yn ffenomenon rhyngwladol, ond, o ystyried sefyllfa gymharol wan y cyfryngau Cymreig cynhenid, gellir disgwyl teimlo'r effeithiau fwy fyth yng Nghymru.

**6.** Mae papurau newydd yng Nghymru wedi gweld gostyngiad parhaus yng nghylchrediad eu fersiynau print. Ers 2008, mae cylchrediad y Western Mail wedi mwy na haneru – o 37,576 yn 2008 i 15,259 yn 2016. Yn ystod yr un cyfnod, mae cylchrediad y Daily Post wedi gostwng dros draean – o 36,432 yn 2008 i 22,251 yn 2016. Mae hyn yn debyg i brofiadau papurau dyddiol y DU, gyda chylchrediad y Mirror a'r Express ill dau wedi mwy na haneru yn ystod yr un cyfnod. Yn 2016, gostyngodd cylchrediad print papurau dyddiol rhanbarthol 12.5% ar gyfartaledd.

**7.** Er bod cylchrediad print papurau newydd wedi gostwng, mae traffig ar-lein wedi cynyddu'n aruthrol. Mae'r defnydd o WalesOnline wedi codi bron i 1,000% ers 2008, hyd at bron i 6.5 miliwn o borwyr unigryw y mis. Mae nifer o wefannau newyddion rhanbarthol wedi gweld twf ffigurau dwbl yn nifer eu hymwelwyr unigryw bob dydd o un flwyddyn i'r llall yn ystod ail hanner 2016, gyda WalesOnline yn gweld twf o 13.1% o un flwyddyn i'r llall.

## Punnoedd analog yn troi'n geiniogau digidol

**8.** Fodd bynnag, mae'r anawsterau wrth sicrhau incwm o draffig ar-lein wedi arwain at amgylchiadau economaidd heriol ar gyfer sefydliadau newyddion. Amcangyfrifwyd bod cynhyrchion print grwpiau papurau newydd yn tueddu i gynhyrchu hyd at 90 y cant o'u refeniw hysbysebu o hyd, a bod £31 o refeniw print

[2] Archwiliad y Cyfryngau yr IWA 2015 (www.iwa.wales/news/2015/11/iwa-wales-media-audit-2015/?lang=cy)

yn cael ei golli am bob £1 sy'n cael ei hennill mewn refeniw digidol gan bapurau cenedlaethol. Er bod gwefannau newyddion yn gwneud yn dda o ran nifer yr ymweliadau, mae'r ymweliadau hyn yn tueddu i fod yn gymharol fyr. Amcangyfrifwyd y bydd Google a Facebook, erbyn 2020, yn ennill 70% o'r holl arian sy'n cael ei wario ar hysbysebion ar-lein yn y DU.

**9.** Ers 2005, bu colled net o tua 200 o bapurau newydd ledled y DU. Yn ogystal â'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y teitlau, mae'r Press Gazette yn amcangyfrif bod cyfanswm y newyddiadurwyr sy'n gweithio ar bapurau newydd lleol, yn ogystal â refeniw'r diwydiant, wedi haneru o leiaf ers 2005. Mae Dr Andy Williams o Brifysgol Caerdydd o'r farn fod colli papur newydd yn cael effaith ddifrifol ar y gymuned: "When the Port Talbot Guardian closed down in 2009, citizens lost their primary source of day-to-day information about how to navigate civic and community life".

## Yr effaith yng Nghymru

**10.** Er nad yw'r problemau a achosir gan y gostyngiad mewn refeniw yn rhai sy'n benodol i Gymru, gellir dadlau bod gan Gymru lai o gyfryngau i'w colli yn y lle cyntaf nag ardaloedd eraill o'r DU. Yn 2015, nododd Ofcom, y rheoleiddiwr cyfathrebu, nad oes cyfrwng print cynhenid cryf yng Nghymru, yn gwbl groes i'r sefyllfa yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ychwanega fod y rhan fwyaf o ddarllenwyr papurau newydd dyddiol yng Nghymru, o ganlyniad, yn darllen papurau newydd y DU, sydd ag ychydig iawn o gynnwys sy'n ymwneud yn benodol â Chymru a'i sefydliad etholedig datganoledig, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r sefyllfa hon wedi peri i Bwyllgor Cynghori Cymru Ofcom ddod i'r casgliad bod Cymru yn cael ei gwasanaethu'n llai cynhwysfawr, y tu allan i'r BBC, nag unrhyw un o wledydd eraill y DU, gyda chyfryngau print gwannach a gwasanaethau radio masnachol sy'n cynnig llai o her i'r BBC o ran lluosogrwydd lleisiau.

**11.** Mae darparwyr newyddion yn addasu wrth i arferion pobl newid o ran darllen a gwrando ar newyddion, gan gynllunio strategaethau golygyddol ar gyfer y byd newydd hwn. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Dr Andy Williams o Brifysgol Caerdydd yn trafod effaith bosibl strategaethau newyddion digidol, sy'n blaenoriaethu cliciau dros fesurau eraill o ansawdd newyddiaduriaeth. Dywedodd:

> "A potential problem with such performance-related data is that it might further de-prioritise coverage of areas of public life which many in the audience might not be interested in, but which is nonetheless squarely in the public interest."

**12.** At hynny, nododd y byddai'r newidiadau strwythurol yn sefyllfa newyddion Cymru yn effeithio ar natur ac amrywiaeth cynnyrch newyddion. Trinity Mirror plc yw'r perchennog papurau newydd mwyaf arwyddocaol yng Nghymru. O dan fantell Media Wales, mae'n berchen ar y Western Mail, y South Wales Echo, y Wales on Sunday a chadwyn o bapurau wythnosol lleol yng nghymoedd y de. Yn 2015, prynodd Trinity Mirror Local World a thrwy hynny ychwanegodd y South Wales Evening Post, y Llanelli Star a'r Carmarthen Journal at grŵp Media Wales. Mae Trinity Mirror hefyd yn berchen ar y Daily Post yn y gogledd. Fel y darparwr newyddion mwyaf (heblaw am y BBC o bosibl) yng Nghymru, roedd trafodaethau yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor ar effaith y tueddiadau a amlinellwyd uchod ar gynnyrch darparwyr newyddion yn tueddu i ganolbwyntio ar Trinity Mirror. Meddai'r Dr Williams:

> "Wales' biggest local media plurality problem does not lie principally in the risk that Trinity Mirror CEO Simon Fox might wish to exert political influence over Welsh life, but instead in the fact that Trinity's cost-cutting, high-output, consolidating and synergistic approach to its business means that almost all Welsh journalists in the commercial sector work in similar ways, producing similar kinds of news, while working under similarly difficult conditions and constraints."

**13.** Dywedodd y Dr Rachel Howells (gynt o'r Port Talbot Magnet) wrth y Pwyllgor fod Trinity Mirror wedi amddiffyn ei elw trwy gwtogi nifer y staff.

**14.** Dywedodd yr NUJ wrth y Pwyllgor fod model busnes Trinity Mirror yn seiliedig ar:

> "…gynyddu nifer yr ymwelwyr i'w wefannau, a'r pryder yw bod hyn yn creu mwy o bwyslais ar ddeunydd ysgafnach, o'r math dull o fyw, ar draul ymdriniaeth fwy traddodiadol o gynghorau."

**15.** Cododd bryderon hefyd fod Media Wales yn colli gohebwyr arbenigol ac yn ffafrio rolau â mwy o ffocws ar yr ochr ddigidol. Disgrifiodd Martin Shipton (Prif Ohebydd Media Wales, a oedd yn siarad ar ran yr NUJ) y tensiwn rhwng polisi golygyddol "digidol yn gyntaf" Trinity Mirror a'r ffaith bod y rhan fwyaf o'i refeniw yn dal i ddod o ddeunydd print (£660 miliwn o refeniw yn 2016 o gymharu â £79 miliwn o refeniw o ddeunydd digidol).

**16.** Nododd tystiolaeth Media Wales fod tueddiadau gwerthu ar gyfer papurau newydd dyddiol Trinity Mirror yng Nghymru yn cyd-fynd â thueddiadau cenedlaethol, neu'n rhagori arnynt mewn rhai achosion. O ganlyniad, ei strategaeth yw diogelu teitlau cymaint â phosibl, ar yr un pryd â chanolbwyntio ar

dyfu ei bresenoldeb digidol mewn cymunedau ledled Cymru. Mae Media Wales yn esbonio, er mai refeniw print yw cyfran fwyaf incwm cyhoeddwyr o hyd, mae'r bwlch gyda digidol yn lleihau. Mae'n nodi:

> "…the situation in an already cautious economic environment is not helped by the growing dominance of Google and Facebook in the digital advertising sphere. Both of these companies have a business model which relies on the content provided by publishers, but have shown no inclination to collaborate with these publishers on a revenue split commensurate with this model."

**17.** Mae'n nodi, yn dilyn twf newyddiaduraeth ar-lein, bod mwy o bobl yn darllen cynnwys a gynhyrchir gan newyddiadurwyr Media Wales nag ar unrhyw adeg yn hanes y cwmni.

**18.** Nododd Alun Edmunds, Cyfarwyddwr Golygyddol Trinity Mirror Regionals, ei rwystredigaeth â'r syniad bod deunydd digidol, rywsut, yn cynnig fforwm llai difrifol ar gyfer newyddion. Disgrifiodd gryfder gwefan WalesOnline, a'i chyfraniad gwerthfawr at luosogrwydd newyddion yng Nghymru:

> "if you look at WalesOnline, which, obviously, we've talked about quite a lot today, it won the website of the year in the Regional Press Awards, it was commended for its tremendous online coverage of the Aberfan anniversary, and the skilful way that the new content, some of the new interviews that had never been heard before. […]
>
> There are some fantastically talented journalists in our newsrooms, who are doing some amazingly clever things online, and engaging very well with their audience. And Wales has been at the forefront of that. So, I do think, in Wales, WalesOnline has been a huge success over the last 10 years, and I think that that's really important for Wales, because if you only had BBC Wales as a national news platform, then that, obviously, would not be the ideal place for plurality."

## Ein Barn – Effaith y dirywiad mewn newyddiaduraeth newyddion fasnachol yng Nghymru

Mae absenoldeb cyfryngau print cynhenid cadarn a diffyg lluosogrwydd cyffredinol yn y sector newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru yn golygu bod Cymru, yn fwy na gwledydd eraill y DU, wedi bod yn fwy agored i effaith tueddiadau cyfredol fel uno, colledion swyddi, a gostyngiad mewn cylchrediad print ar draws y sector cyfan.

Mae'r newid tuag at newyddiaduraeth newyddion ar-lein a strategaethau digidol yn gyntaf wedi arwain at sylw er budd y cyhoedd o ansawdd is yng Nghymru o'i gymharu â chynnwys sy'n debygol o fod yn fwy deniadol a chynyddu traffig digidol ac felly sicrhau'r refeniw hysbysebu ar-lein gorau posibl.

Rydym yn cydnabod ei bod yn amser heriol i ddarparwyr newyddion, sydd wedi gorfod addasu eu modelau busnes er mwyn lliniaru effaith refeniw print sydd ar drai. Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig mai cau neu gyfuno teitlau a lleihau newyddiaduraeth leol yw'r ffordd iawn ymlaen. Oni bai bod camau'n cael eu cymryd i wrthbwyso effaith negyddol y tueddiadau hyn, bydd y sefyllfa'n parhau i waethygu, gyda llai a llai o sylw'n cael ei roi i faterion sydd o ddiddordeb i'r rheini sy'n byw yng Nghymru ac sy'n effeithio arnynt.

Er ein bod yn deall y rhesymau dros strategaeth Trinity Mirror i gynyddu refeniw hysbysebu ar-lein, a defnyddio refeniw print i ddiogelu a hyrwyddo ei strategaeth ddigidol yn gyntaf, mae yna beryglon yn gysylltiedig â'r dull hwn sydd heb gael sylw digonol.

Mae Trinity Mirror wedi prynu cyfran sylweddol o'r sector print yng Nghymru. Mae cael un cwmni mewn sefyllfa mor gref yn golygu bod lluosogrwydd cyfyngedig a bod posibilrwydd y gallai un darparwr newyddion ddylanwadu'n ormodol ar ddadl gyhoeddus. Hyd yn oed os yw amcanion Trinity Mirror yn ddiniwed, gall ei fodel busnes a'i strategaeth olygu bod yr amrywiaeth eang tybiedig o deitlau o dan ei ofal yn cynnig cynnwys unffurf neu ddiflas sy'n canolbwyntio ar sicrhau cymaint o gliciau â phosibl yn hytrach na darparu deunydd mwy amrywiol.

O ystyried y gyfran uchel o deitlau sy'n eiddo i Trinity Mirror yng Nghymru, a sefyllfa flaenllaw'r cwmni yng Nghymru erbyn hyn, credwn fod ganddo gyfrifoldeb i wneud popeth yn ei allu i sicrhau bod ei gynnwys yn cynrychioli'r gorau o newyddiaduriaeth newyddion sydd o fudd i'r cyhoedd ac yn parhau i gynnig cynnwys mor amrywiol a lluosog ei natur â phosibl. Yn benodol, rydym yn galw ar Trinity Mirror i sicrhau nad dim ond cregyn gwag yw'r teitlau lleol ond eu bod yn parhau i fod wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau lleol a'u bod yn darparu ffynonellau hyfyw o newyddion a safbwyntiau lleol o'r cymunedau hynny ac ar eu cyfer.

# 3. Newyddiaduraeth hyperleol a gwirfoddol

**19.** Mae newyddiaduraeth "hyperleol" yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio newyddiaduraeth sy'n canolbwyntio ar ardal leol. Yn wahanol i gyfryngau lleol neu ranbarthol mwy traddodiadol, mae ffocws daearyddol darparwyr newyddion hyperleol yn tueddu i fod yn fwy cul o lawer. Er bod dyfodiad newyddion digidol wedi creu amgylchedd economaidd heriol ar gyfer cwmnïau newyddion, mae hefyd wedi rhoi llwyfan i ddarparwyr newyddion "hyperleol" newydd sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Mae'r mentrau hyn â'u gwreiddiau yn eu cymunedau, ac er eu bod yn aml yn cael eu rhedeg gan bobl sydd wedi cael rhywfaint o brofiad neu hyfforddiant newyddiadurol blaenorol, mae'r rhan fwyaf yn cael eu rhedeg er boddhad personol yn hytrach nag er mwyn yr arian gan amlaf: gwirfoddolwyr ydynt sy'n gweithio i dalu eu costau yn unig gan amlaf. Mae tua 400 o gyhoeddwyr hyperleol ar waith yn y DU ar hyn o bryd, gyda 46 ohonynt yng Nghymru, sef dros ddwbl y ffigur a ddisgwylir o ystyried maint poblogaeth Cymru.

**20.** Meddai Dr Williams wrth y Pwyllgor :

> "…to support and foster local news as a public good in the 21st Century we will need a re-evaluation of local news policies to encourage newer entrants to the market, to foster experimentation with different funding models, and stimulate independent, plural and truly local news in print and online. It's clear that the professional and professionalising part of the sector would benefit from a range of policy interventions but the most useful might be smart, independently-administered, contestable, funding to help them try out, and test, different models for funding and distributing independent public interest local news in different places to help the sector as a whole develop and become more sustainable."

**21.** Mae'n anodd gwneud mentrau hyperleol yn hunangynhaliol yn nhermau economaidd. Er eu bod yn aml yn deillio o'r cyfleoedd y mae cyhoeddi ar-lein yn eu cynnig, maent yn wynebu'r un anawsterau o ran cynhyrchu refeniw â'r papurau newydd traddodiadol y maent, mewn rhai mannau, yn eu disodli. Ychydig dros 10% o wefannau hyperleol sy'n cynhyrchu refeniw o fwy na £500 y mis. Eglurodd Dr Williams, er gwaethaf gwerth cymdeithasol a democrataidd nodedig cynnwys newyddion hyperleol, nid yw newyddion cymunedol yn faes ag iddo lawer o werth economaidd fel rheol.

**22.** Clywodd y Pwyllgor mai hysbysebu ar-lein yw'r prif ddull o greu incwm, ond ei bod yn arbennig o anodd i wefannau hyperleol godi refeniw yn y modd hwn

oherwydd nad oes llawer iawn o bobl yn eu gweld. Mae ffynonellau cyllido eraill yn cynnwys:

- Cyllido torfol;
- Mentrau cydweithredol ymhlith y gynulleidfa;
- Grantiau gan elusennau a sefydliadau;
- Cyllid elusennol drwy ymddiriedolaethau datblygu cymunedol lleol;
- Traws-gymorthdalu newyddion lleol gyda ffrydiau incwm eraill (fel hyfforddiant neu waith ymgynghorol); ac, yn gynyddol
- Modelau hysbysebu mewn print gan ddefnyddio papurau newydd rhad ac am ddim.

**23.** Fodd bynnag, mae Dr Williams yn awgrymu nad yw'r farchnad newyddion lleol yn y DU yn gallu cynnal y math hwn o newyddion ar raddfa fawr, yn gyson, ar draws y wlad. Tynnodd sylw at sefyllfa fregus mentrau hyperleol, ac felly ei bod hi'n anodd disgwyl i'r rheini gynnal y math o sefydliadau sydd wedi bod yn hanfodol i sicrhau newyddion lleol cryf, annibynnol a beirniadol yn y gorffennol. At hynny, mae eu cylchrediad yn dameidiog, sy'n golygu mai dim ond yn rhannol y gall mentrau hyperleol lenwi'r bylchau cynyddol mewn newyddion lleol.

**24.** Yn ogystal â'r safleoedd hyperleol newydd hyn, ceir mwy na 50 o Bapurau Bro yn y Gymraeg sydd wedi darparu newyddion lleol i gymunedau Cymraeg eu hiaith ers dros 40 mlynedd. Mae'r Papurau Bro yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy ei chyllideb ar gyfer y Gymraeg, tra bod Golwg360, y wefan newyddion cyfrwng Cymraeg, yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor Llyfrau Cymru.

**25.** Roedd llawer o'r heriau a fynegwyd gan ddarparwyr newyddion hyperleol yn canolbwyntio ar anawsterau yn caffael cyllid/refeniw. Eglurodd Richard Gurner o'r Caerphilly Observer mai'r anhawster a wynebodd oedd denu busnesau lleol, a oedd yn gyfarwydd â hysbysebu mewn print, i hysbysebu ar y wefan. Dywedodd hefyd ei fod wedi ceisio cysylltu ag asiantaeth hysbysebu Llywodraeth Cymru ac wedi methu, gan esbonio bod yr Observer wedi cael ei ddiystyru fel papur dibwys.

**26.** Rhoddodd Dr Rachel Howells, cyfarwyddwr sefydlu a chyn-olygydd papur newydd y Port Talbot Magnet nad yw'n bodoli bellach, y rhesymau canlynol am dranc y Magnet:

"We were not able to offer consistent pay or contracts to the people who worked for us. Most of the people who made the Magnet possible did so as volunteers. Our freelancers often charged less than the going rate, or put in a proportion of their time for free in order to support us.

Sales staff were incredibly difficult to find as we were not able to fund the incentives that would normally be expected. Our first ad sales rep scammed us out of several hundred pounds; our second worked amazingly hard and brought in revenues but stress made her very ill; and our third had to take a second job as a supermarket delivery driver to top up his commission.

We reluctantly concluded that there was insufficient wealth in the local economy in Port Talbot to support a news service. Many of our advertisers were not able to spend money regularly, or were not able to pay our rates, even reduced to cost prices.

Online advertising revenues were not enough to sustain us. The newspaper brought in revenues of between £2.5k and £5k per edition. The website, in the entire seven years it ran, brought in £1.5k – an average of £215 per year, not even enough to cover our insurance bill. We found advertisers far preferred the hard copy newspaper.

Volunteers were difficult to find and a burden to manage, support and train. Volunteers were plentiful at first, but sustaining their numbers became increasingly difficult.

Engaging with public bodies was difficult. It took five years of nagging for South Wales Police to add us to their mailing list. We made several requests to the BBC for them to link to us as a news provider but we did not receive a reply. There was no systematic way to approach schools – each had its own system and a different policy for dealing with the media. The local council took a long time to add us to their mailing list for press releases, and often took days or weeks to respond to queries. Only latterly were we invited to openings such as the new superschool at Baglan. The local college did not engage with us. Tata Steel were very reluctant to engage with us until the last months of 2016. We felt the door of institutions was usually closed to us, and it took many repeated requests for it to be – reluctantly – opened, and often only to a narrow, one-off, crack. We found most public bodies and businesses only acknowledged our requests and took us seriously after we had written critically about them."

**27.** Teimlai Dr Rachel Howells nad oedd digon o refeniw hysbysebu ar gael yn yr ardal leol i wneud y papur yn gynaliadwy yn ariannol yn yr hirdymor. O ganlyniad, awgrymodd sefydlu hybiau newyddion wedi'u hariannu â chyllid cyhoeddus ledled cymunedau'r DU.

> "Have you seen the research by the Media Trust? Natalie Fenton's team in London did it. It basically advocates the establishment of news hubs across communities in the UK. So, however they would be funded—Government funded, perhaps—they would have a local journalist based in that town, salaried, basically, going to every—similar to what's happening through the BBC at the moment now. But they would be independent, perhaps sharing that news and information with others. So, I think what I'm arguing for, in a very roundabout way, because I think the case they make is very solid in that report, is a salaried journalist in each community that requires it—it's that kind of commitment. But it would need to be done at arm's length, independent—."

**28.** Aeth ymlaen i egluro sut y byddai cynllun o'r fath wedi helpu i wneud model busnes Magnet yn fwy cynaliadwy, gan ddweud:

> "if we could have had a lot of our content produced and paid for by something like that—you know, having somebody in our team whose salary was underwritten — it would have just made life so much easier for us."

**29.** Yn ystod yr ymchwiliad, fel rhan o'i chytundeb ar y gyllideb ddrafft gyda Plaid Cymru, cynigiodd Llywodraeth Cymru gyllid o £100,000 yn 2018-19 a 2019-20 ar gyfer "grantiau cychwyn i newyddiadurwyr sy'n dymuno sefydlu eu busnes eu hunain mewn newyddion hyperleol". Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddarparu trwy wasanaeth cymorth i fusnesau Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru.

**30.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, ymhelaethodd Ysgrifennydd y Cabinet ar sut y gallai'r grant hwn weithredu. Dywedodd :

> "There's nothing really that makes this different to what we already provide through Business Wales, other than this would be, from what I understand, ring-fenced.
>
> [...]
>
> But what's unique about this is that it's been ring-fenced for one purpose. I would like to explore, potentially with Plaid Cymru, the

opportunities that could be had with this money in using it for a very sustainable purpose, that is to train up journalists in hyperlocal media. One of the concerns that I have with using it just as a grant is that, if it's only going to be conducted over two years, knowing the fragility of hyperlocal media, are we offering grants and setting up—this is a very important question we must ask, and it will be asked—hyperlocal media to fail, and/or are we offering grants with the expectation that further support could come?

[…]

We couldn't operate this fund, I don't think, in a different way to other funds that we've operated recently on the basis of economic development and sustainability of the business model. However, that said, I also think that there would be wider social benefits to this. Whilst it may just be judged on the economic benefit and the credibility of each and every bid and the sustainability of business models, I also think there would be those obvious social benefits in having a greater degree of news provision."

**31.** Yn ystod sesiwn graffu'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft ar 16 Tachwedd, dywedodd y Gweinidog newydd dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon:

"As I've said, I haven't had a discussion with the Cabinet Secretary, but I think I've also tried to make it clear that when I saw the responsibility for broadcasting policy—that means, I assume, media policy generally—in my responsibilities, it was clear in my own mind that that did not mean that we were a direct provider. But, clearly, media businesses as businesses are able to receive support through our business programmes. You will know my views on this. I've been opposed to the devolution of media control in Wales because I believe it is important that, given that platforms, generally, are so expensive and so far-reaching, there should always be a joint responsibility of the UK regulators and the UK Government and Welsh Government, and that the policy role of Welsh Government here is to ensure that the UK Government is aware of the needs of Wales in any of its decisions in this whole area, and that it is not for Welsh Government to be providing media outlets or supporting media outlets. But I will have to discuss this in detail with the Cabinet Secretary to see what he had in mind. I don't think this was a manifesto commitment, was it?"

**32.** O ystyried parodrwydd Ysgrifennydd y Cabinet i ystyried hyn, ymgynghorodd y Pwyllgor â rhanddeiliaid ynghylch sut y gellid defnyddio'r arian hwn orau i gefnogi newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru. Cafodd yr ymgynghoriad saith ymateb, ac mae rhagor o fanylion yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

**33.** Nid oedd yr ymatebion hynny yn cynnig consenswS cyffredinol i'r Pwyllgor ar sut y dylid defnyddio'r arian hwn. Fodd bynnag, thema gyffredin yn eu plith oedd na ddylid ei gadw'n llwyr ar gyfer sefydlu darparwyr newyddion hyperleol newydd. Roedd Canolfan Newyddiaduraeth Gymunedol Prifysgol Caerdydd, a wnaeth gynnig barn gymharol gynhwysfawr ar y defnydd o gyllid – ar ôl ymgynghori â'u hunain, yn galw am gynllun cyllido cystadleuol, gan awgrymu y gallai amrywiaeth o fuddsoddiadau cymharol fach gael effaith fawr ar newyddiaduraeth leol, mentrau lleol ac ar gydlyniant cymdeithasol gan fod offer i arloesi a chyhoeddi newyddion lleol ar gael yn eang am gost isel.

## Ein Barn Ni – Newyddiaduraeth hyperleol a gwirfoddol

Mae'n galonogol nodi bod gan Gymru fwy na dwywaith nifer y darparwyr newyddion hyperleol na'r disgwyl ar sail ei chyfran o boblogaeth y DU. O ystyried tueddiadau cyfredol ac absenoldeb cyfryngau print cynhenid cryf yng Nghymru, mae cyfraniad darparwyr newyddion hyperleol i'r ecosystem newyddiadurol yn werthfawr a dylid ei feithrin a'i annog, yn enwedig fel ffordd o annog newydd-ddyfodiaid i'r farchnad ac o feithrin arloesedd.

Er ein bod yn falch o weld y sector hyperleol yn amlygu ei hun yng Nghymru, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom na all y sefydliadau hyn, ar eu pen eu hunain, gau'r bwlch a adawyd gan absenoldeb cyfryngau print cynhenid cryf. Er mor galonogol eu datblygiad, mae disgwyl i'r sector allu datrys holl ddiffygion sector newyddiaduraeth newyddion Cymru yn afrealistig.

Nid ydym yn gwbl argyhoeddedig mai cyllid i sefydlu darparwyr newyddion hyperleol newydd yw'r defnydd gorau o'r £100,000 y flwyddyn sydd ar gael. Mae'r ffaith fod gan Gymru ddwywaith nifer y mentrau hyperleol newydd nag y byddai rhywun yn ei ddisgwyl ar sail maint y boblogaeth yn dangos nad yw'n anodd cychwyn mentrau hyperleol yng Nghymru: eu cynnal sy'n anodd. Mae'r ymgynghoriad wedi ein harwain at y casgliad y dylai'r arian newydd fod ar gael yn ehangach, ac nid i fentrau hyperleol newydd yn unig drwy Busnes Cymru.

Er na chafwyd consenswS eang ymhlith yr ymgyngoreion ynghylch sut y dylid defnyddio'r arian, roedd y rhan fwyaf o'r farn mai cronfa gystadleuol, sydd hefyd ar gael i ddarparwyr newyddion hyperleol sydd eisoes wedi'u sefydlu, fyddai fwyaf effeithiol ac yn cynnig y gwerth gorau am arian. Cytunwn â'r dull

gweithredu hwn. Cytunwn hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr ymateb ystyriol gan y Ganolfan Newyddiaduraeth Gymunedol ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn benodol, rydym yn cytuno gyda'r canlynol:

- Dylai'r cynllun fod yn un cystadleuol;
- Dylai cyllid fod ar gael i newydd-ddyfodiaid i'r maes a phobl sydd eisoes yn gweithio yn y maes sy'n awyddus i arloesi a datblygu modelau busnes mwy cynaliadwy;
- Dylai cyllid fod ar gael ar gyfer creu platfform a meddalwedd sy'n cefnogi ac yn gwella arloesedd wrth ddarparu newyddiaduraeth leol sydd o fudd i'r cyhoedd, gan y byddai hyn yn helpu i wella cynaliadwyedd ar draws y sector.

Cawsom ein denu hefyd gan y cysyniad o hybiau newyddion a ariennir gan arian cyhoeddus fel yr awgrymwyd gan Dr Rachel Howells. Nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, awgrymwn sut y gellid rhyddhau adnoddau trwy ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus a allai helpu i gefnogi hyb newyddion yng Nghymru. Credwn hefyd y byddai hyn yn well defnydd o'r cyllid y mae'r BBC yn ei ddarparu i gynnwys newyddiadurwyr y BBC mewn sefydliadau cyfryngau eraill.

## ARGYMHELLIADAU

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru feithrin ac annog y sector hyperleol fel ffordd o annog newydd-ddyfodiaid i'r farchnad a chefnogi dulliau arloesol o ddarparu newyddiaduraeth newyddion lleol.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyllid o £100,000 yn 2018-19 a 2019-20 ar gyfer cynllun cystadleuol sydd ar gael i newydd-ddyfodiaid ac i gefnogi arloesedd a chynaliadwyedd ymysg gweithredwyr cyfredol.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sefydlu hybiau newyddion hyd braich a ariennir gan ddefnyddio arian cyhoeddus, yng ngoleuni diffyg hyfywedd marchnad darpariaeth newyddion lleol mewn sawl rhan o Gymru.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad llawn o lwyddiant y £100,000 o gyllid unwaith y bydd y flwyddyn gyntaf o gyllid yn dod i ben i lywio penderfyniadau ynghylch sut y dylid defnyddio'r arian yn y dyfodol.

# 4. Cymorth ariannol i newyddiaduraeth newyddion

**34.** Nododd Emma Meese, o Ganolfan Newyddiaduraeth Gymunedol Prifysgol Caerdydd, y gellid gwneud elw o newyddiaduraeth leol o hyd, ond nid digon i fodloni'r cwmnïau mawr sy'n gynyddol reoli'r dirwedd newyddion yng Nghymru.

**35.** Awgrymodd Ms Meese fod sefydliadau hyperleol o dan anfantais gan nad ydynt yn gallu cael gafael ar yr un faint o gyllid a chymorth â'r papurau newydd mawr, traddodiadol, sydd â monopoli ledled Cymru. Mae hi hefyd yn dweud bod angen i ni roi'r gorau i feddwl yn nhermau "papur newydd" a dechrau meddwl yn nhermau "cyhoeddwyr newyddion", a bod hyn yn hollbwysig wrth benderfynu pwy all gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus. Hefyd, soniodd Ms Meese wrth y Pwyllgor am brosiect yn yr Unol Daleithiau - The Knight Foundation - a nododd nad oes rhaglen o'r fath yng Nghymru sy'n cynnig cyllid sbarduno i sefydliadau newyddion newydd, bach.

**36.** Amlinellodd Dr Williams y gwahanol fathau o gymhorthdal gwladwriaethol sy'n cefnogi papurau newydd traddodiadol yn ei farn ef - fel refeniw hysbysebu o hysbysiadau statudol a gostyngiadau treth am gyhoeddi papurau newydd – a galwodd am ailasesu'r rhain ar gyfer yr oes ddigidol. Teimlai Emma Meese y byddai rhoi hawl i fentrau hyperleol gyhoeddi hysbysiadau statudol yn cael effaith enfawr. Roedd Dr Williams yn amcangyfrif bod yr hysbysiadau hyn yn werth £40–50 miliwn y flwyddyn ledled y DU. Mae nifer o statudau mewn gwahanol feysydd o'r gyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus osod hysbysiadau mewn papurau newydd lleol. Byddai angen diwygio'r cyfreithiau er mwyn cynnwys cyhoeddiadau ar-lein.

**37.** Trafododd y Pwyllgor gydag Ysgrifennydd y Cabinet yr awgrym a oedd wedi dod i law y dylid diwygio'r system hysbysiadau statudol fel bod modd i ddarparwyr newyddion hyperleol gyhoeddi'r hysbysebion hyn, a chael tâl am hynny. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "The rules shouldn't have to change. I need to be clear here that legislation does not prevent statutory notices from going online only."

**38.** Er gwaethaf hyn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi nodi deddfwriaeth sy'n datgan yn benodol y gofyniad i gyhoeddi mewn papur newydd. Ni fyddai hyn yn atal cyhoeddi mewn mentrau hyperleol print ond byddai'n atal yr hysbysiadau hynny rhag cael eu gosod ar-lein yn unig. Er enghraifft, o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf honno,

mae gofynion i gyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd sydd â chylchrediad mewn ardaloedd neu leoliadau perthnasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhywfaint o ddeddfwriaeth sy'n dileu'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiadau mewn papur newydd lleol, er mwyn caniatáu cyhoeddi electronig, fel adran 82 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Nodyn Esboniadol i'r adran hon yn nodi nad yw cyhoeddi mewn papurau newydd lleol yn ofyniad mwyach a bydd hyn yn darparu ar gyfer trefniadau hysbysebu hyblyg a dewis ynghylch y mecanwaith mwyaf priodol o ddosbarthu hysbysiadau, gan gynnwys dulliau electronig. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd nifer o ddarpariaethau unigol yn parhau sy'n ymdrin â hysbysiadau statudol mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ac a allai atal neu lesteirio darparwr newyddion ar-lein rhag cyhoeddi hysbysiadau.

**39.** Roedd Ifan Morgan Jones, darlithydd newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Bangor, yn dadlau bod ei ddadansoddiad o newyddiaduraeth newyddion yn y Gymraeg a ariennir yn gyhoeddus (fel Golwg360) yn awgrymu "nad oes dim llawer o reswm pam na fyddai gwefannau newyddion cyfrwng Saesneg yn derbyn nawdd cyhoeddus hefyd yn opsiwn ymarferol". Dywedodd fod yna "archwaeth nad yw'n cael ei ddiwallu ar hyn o bryd gan y cyfryngau cyfrwng Saesneg yng Nghymru".

**40.** Amlinellodd y Caerphilly Observer y gefnogaeth y mae wedi'i chael i droi cyhoeddiad ar-lein yn unig, a sefydlwyd yn 2009, yn bapur newydd. Mae'n nodi bod cyllid grant yn hanfodol ar gyfer cwmnïau cyfryngau sy'n cychwyn o'r newydd:

- Grant egin-fusnes yn 2013 i lansio papur newydd bob pythefnos â chylchrediad o 10,000 gan y tîm datblygu gwledig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Rhoddwyd grant o £2,441.60 a dalodd am 80% o gostau argraffu'r pedwar rhifyn cyntaf ac 80% o gost tri bin dosbarthu.

- Enghreifftiau eraill o gyllid grant yn cynnwys dau leoliad Twf Swyddi Cymru, a chyllid drwy Lywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Fairwood ar gyfer gofod swyddfa.

**41.** Amlinellodd yr Observer fod ei fodel busnes yn un sy'n bennaf seiliedig ar gyllid hysbysebu, gyda dim ond tua 75% i 80% o'i drosiant yn dod o hysbysebu ar-lein a phrint. Esboniodd fod hysbysebion mewn print yn unig yn cyfrif am oddeutu 65% a bod hynny'n cynnwys hysbysiadau cyfreithiol a gyhoeddir gan yr awdurdod lleol. Nododd y papur iddi fod yn frwydr i ddarbwyllo'r awdurdod lleol i gyhoeddi ei hysbysiadau cyhoeddus yn yr Observer, a bu'n rhaid i'r Gweinidog ar y pryd, Edwina Hart AC, gadarnhau ei fod yn cyfrif yn gyfreithiol fel papur newydd.

**42.** Eglurodd yr Observer fod un o'i gystadleuwyr - y South Wales Argus - wedi gwrthwynebu'r ffaith iddo gael cyllid, a'i fod bellach yn argraffu mwy o gopïau. Dywed yr Observer mai'r rhai sy'n elwa yw'r darllenwyr a'r gymuned leol, a bod cyfryngau cystadleuol yn gyfryngau iach ac yn rhan annatod o gymuned lwyddiannus.

**43.** Dywedodd Dr Rachel Howells wrth y Pwyllgor i'r Port Talbot Magnet gael £10,000 fel y gallai'r papur fynd i brint, a bod yr arian wedi bod o gymorth mawr. Fodd bynnag, dywedodd pan iddi ddechrau'r Magnet yn 2009, fod diffyg ymwybyddiaeth ymysg darparwyr grantiau o'r hyn oedd newyddiaduraeth hyperleol, ac o ganlyniad nid oedd grantiau a oedd yn diwallu ei hanghenion ar gael yn hawdd. Fodd bynnag, dywedodd fod y broblem a gafwyd yn un ddaearyddol ac yn un gymunedol. Yn y bôn, nid oedd digon o refeniw hysbysebu ar gael yn yr ardal leol i sicrhau bod y papur yn gynaliadwy'n ariannol dros yr hirdymor. O ganlyniad, awgrymodd sefydlu hybiau newyddion wedi'u hariannu â chyllid cyhoeddus ledled cymunedau'r DU.

**44.** Gwrthododd Google a Facebook - y ddau gwmni sy'n derbyn y rhan fwyaf o'r incwm o hysbysebu ar-lein - wahoddiadau i ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor. Rhoddodd Google dystiolaeth ysgrifenedig yn amlinellu'r gefnogaeth y mae'n ei chynnig i newyddiaduraeth newyddion ar hyn o bryd. Mae hynny'n cynnwys y Digital News Initiative, a ddisgrifir gan Google fel a ganlyn:

> "Our Digital News Initiative (DNI) is a collaboration between Google and European news publishers that aims to support high quality journalism and encourage a more sustainable news ecosystem through technology and innovation. As part of this effort, DNI has committed €150 million to support innovation in digital news across the EU. To date, DNI has provided €73.5 million in funding to 359 projects over the course of three rounds of funding, with €7.1 million of this being in the UK. These projects cover a broad range of technological challenges for newsrooms, from personalised news apps to VR for news, and news organisations of all sizes."

**45.** Yn ogystal â'r gwaith hwn, mae Google wedi darparu hyfforddiant i newyddiadurwyr yng Nghaerdydd.

## Ein Barn – Cymorth ariannol i newyddiaduraeth newyddion

Mae refeniw hysbysebu bob amser wedi bod yn sail i hyfywedd cyhoeddwyr newyddion masnachol. Fodd bynnag, mae'r newid i hysbysebu ar-lein yn broblem i ddarparwyr newyddion lleol oherwydd efallai na fydd eu cynulleidfa leol gyfyngedig mor ddeniadol i ddarpar hysbysebwyr o gymharu â'r cyrhaeddiad eang y gall platfformau ar-lein ei gynnig.

Oherwydd ofn llesteirio rhyddid i'r wasg, mae'r sector cyhoeddus yn y DU wedi osgoi rhoi cymhorthdal gwladwriaethol uniongyrchol i newyddiaduraeth fasnachol. Fodd bynnag, o ystyried y diffyg lluosogrwydd ac amrywiaeth sydd gennym ar hyn o bryd mewn newyddiaduraeth newyddion masnachol yng Nghymru, credwn fod yr amser wedi dod i ystyried a ddylid defnyddio cymhorthdal anuniongyrchol yn fwy creadigol i helpu darparwyr llai.

Mwy dadleuol yw'r cwestiwn a ddylid datblygu rhyw fath o fodel o gymhorthdal uniongyrchol ar gyfer darparu newyddiaduraeth fasnachol. Byddai angen i unrhyw fodel o'r fath sicrhau ffyrdd o ddiogelu rhyddid golygyddol rhag ymyrraeth y llywodraeth neu swyddogion. Bydd hyn yn anodd ac mae angen ystyried y risgiau o ystumio'r farchnad hefyd. Er gwaethaf hyn, credwn fod sefyllfa newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru yn golygu y dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i ryw ffordd o roi cymhorthdal i newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru.

Er mwyn i bob darparwr newyddion lleol fod yn gymwys i gyhoeddi'r ystod lawn o hysbysiadau statudol (ac elwa ar y refeniw cysylltiedig), deallwn fod angen newidiadau i'r ystod eang o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu eu cyhoeddi. O gofio sefyllfa ariannol fregus darparwyr newyddion hyperleol, dylid mynd ati'n ddi-oed i ystyried newidiadau er mwyn agor y ffrwd refeniw bosibl hon i'r darparwyr hyn cymaint â phosibl. Mae angen cyfathrebu'n well hefyd ynglŷn â'r sefyllfa bresennol a rhoi eglurhad i'r sector. Mae'r ffaith i'r Gweinidog orfod ymyrryd yn bersonol gyda'r awdurdod lleol i gadarnhau bod y Caerphilly Observer yn "bapur newydd" yn pwysleisio y byddai'r sector yn elwa ar gael mwy o eglurder ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch ble y gellir cyhoeddi'r gwahanol hysbysiadau statudol.

Fodd bynnag, mae'r gofyniad i osod hysbyseb mewn papur newydd yn aml yn ffordd anacronistig ac aneffeithlon o roi cyhoeddusrwydd i weithgarwch y llywodraeth. Teimlwn fod angen diweddaru'r system hon mewn sawl ffordd. Pan fo deddfwriaeth yn datgan ar hyn o bryd y dylid gosod hysbysiadau statudol mewn papurau newydd, dylid diwygio'r gyfraith fel bod asiantaethau'r llywodraeth yn gallu gosod yr hysbysebion hyn gyda darparwyr newyddion eraill

- gan gynnwys rhai ar-lein - lle maent yn ystyried hyn yn briodol. Dylai asiantaethau'r Llywodraeth sy'n gosod hysbysiadau statudol wedyn ddefnyddio'r rhyddid newydd hwn i asesu pa mor gost-effeithiol yw'r hysbysebion y maent yn talu amdanynt.

Credwn fod y system bresennol yn ffafrio'r rheini sydd eisoes yn weithredol yn y sector (papurau newydd lleol) ac yn eu gwarchod rhag cystadleuwyr, gan gadw costau gofod hysbysebu yn artiffisial o uchel. Nid yw'r Pwyllgor o'r farn y dylid rhoi'r gorau i roi arian cyhoeddus i newyddiaduraeth leol. Fodd bynnag, byddai'n well defnyddio'r arian sy'n cael ei arbed yn sgil moderneiddio'r gyfundrefn hysbysiadau statudol – sy'n cynnwys cymhorthdal ymhlyg ar gyfer papurau newydd lleol ar hyn o bryd - fel cyllid wedi'i dargedu gyda newyddiaduraeth er budd y cyhoedd wrth ei wraidd.

Fodd bynnag, yr hyn nad yw'n glir yw union raddfa'r gwariant ar hysbysiadau cyhoeddus. Fel cam cyntaf, credwn fod angen canfod yn union faint sy'n cael ei wario ar yr hysbysiadau hyn gan Lywodraeth Cymru a gan gyrff cyhoeddus a llywodraeth leol yng Nghymru.

Dylid archwilio'r posibilrwydd o ffurfiau eraill o gymhorthdal gwladwriaethol hefyd gan fanteisio ar arbenigedd y rheini sy'n gweithio yn y sector newyddiaduraeth leol ac sydd ag arbenigedd ehangach yn y maes yng Nghymru a thu hwnt. Dylai proses o'r fath ganolbwyntio ar wneud y gorau o'r refeniw posibl sydd ar gael i ddarparwyr newyddion lleol a dylid ei seilio ar lunio model busnes cynaliadwy sy'n cynnal ac yn gwella'r lefel bresennol o allbwn newyddiadurol yn y sector ac ansawdd yr allbwn hwnnw. Mae gostyngiadau treth ar gyfer cyhoeddi papur newydd yn un maes o'r fath y dylid ei archwilio.

O ystyried llwyddiant ymddangosiadol newyddiaduraeth Gymraeg a ariennir yn gyhoeddus, credwn ei bod yn werth archwilio a ellid defnyddio'r model hwn fel templed ar gyfer newyddiaduraeth Saesneg gyda chyllid hyd braich yn cael ei ddarparu gan y Llywodraeth. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r pryderon ynghylch rhoi cyllid gwladwriaethol i newyddiaduraeth, mae enghraifft Golwg360 yn dangos bod y dull hwn yn gallu gweithio.

Ar wahân i gymorthdaliadau gwladwriaethol a refeniw hysbysebu, byddai darparwyr newyddion lleol yn elwa hefyd ar well ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr grantiau o'r hyn yw newyddiaduraeth newyddion hyperleol - rydym wedi clywed y gallant fod yn gyndyn i ariannu sefydliadau newyddion hyperleol gan nad ydynt yn ymwybodol o'r hyn ydyn nhw. Gellid, a dylid, unioni hyn yn gyflym, ynghyd â'r eglurder sydd ei angen mewn perthynas â phwy sy'n gymwys i argraffu hysbysiadau statudol ar hyn o bryd.

Er ein bod yn croesawu'r gefnogaeth y mae Google yn ei darparu i newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru ar hyn o bryd, o gofio bod y cwmni'n geffyl blaen yn y farchnad hysbysebu ar-lein yn fyd-eang ac o gofio cyflwr sector newyddiaduraeth newyddion Cymru, credwn fod angen i'r cwmni gynyddu'r gefnogaeth hon yn sylweddol. Mae'n anffodus iawn i Facebook wrthod cyfrannu at yr ymchwiliad hwn, o ystyried dominyddiaeth y cwmni hwn ar y farchnad hefyd, ac rydym hefyd yn galw ar y cwmni i ystyried sut y gall roi rhywbeth yn ôl i'r newyddiaduraeth sy'n gwneud cymaint i helpu i gefnogi ei fodel busnes.

## ARGYMHELLIADAU

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal archwiliad o'i gwariant ar hysbysiadau statudol hysbysebu, o'r swm sy'n cael ei wario gan gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac o'r swm sy'n cael ei wario gan lywodraeth leol. Yna dylai ymgynghori'n eang ynghylch a oes ffyrdd mwy cost effeithiol o roi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau statudol a sut y gellir ail-fuddsoddi unrhyw arbedion a ryddheir i gefnogi newyddiaduraeth newyddion er budd y cyhoedd.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Google a Facebook yn ystyried sut y gallant wella eu cefnogaeth i newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid defnyddio rhan o unrhyw gyllid a ryddheir trwy foderneiddio'r broses o gyhoeddi hysbysiadau statudol i greu corff tebyg i'r Knight Foundation yn yr Unol Daleithiau, sy'n cynnig cyllid cychwynnol ar gyfer sefydliadau newyddion bach newydd sbon.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n ddi-oed i nodi'r newidiadau sydd eu hangen o fewn ei chymhwysedd er mwyn galluogi hysbysiadau statudol i gael eu cyhoeddi gan ddarparwyr hyperleol ac ar-lein ac i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Cynulliad yn y dyfodol yn gweithredu'r newidiadau hyn lle bo'n briodol. Dylai unrhyw arbedion a wneir o ganlyniad i gostau hysbysebu is yn sgil cynnydd mewn cystadleuaeth gael eu hailgyfeirio trwy gyllid wedi'i dargedu tuag at newyddiaduraeth er budd y cyhoedd.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro i awdurdodau lleol a chyrff statudol perthnasol eraill yng Nghymru bod ganddynt y rhyddid i gyhoeddi hysbysiadau statudol ar-lein, lle mae deddfwriaeth gyfredol yn caniatáu hyn.

# 5. Cymorth anariannol i newyddiaduraeth newyddion

**46.** Mae Dr Williams ac Emma Meese, a gyflwynodd dystiolaeth i sesiwn gyntaf yr ymchwiliad hwn, yn cyfrannu at Ganolfan Newyddiaduraeth Gymunedol Prifysgol Caerdydd, a sefydlwyd yn 2013 i gefnogi mathau newydd o newyddiaduraeth ddigidol leol. Ers hynny mae'r Ganolfan wedi hyfforddi mwy na 32,000 o ddysgwyr o 130 o wahanol wledydd, ac mae wrthi'n sefydlu'r Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol, sef corff cynrychiadol y DU i'r sector newyddion cymunedol a hyperleol annibynnol. Nododd tystiolaeth Emma Meese y bydd y rhwydwaith hwn yn:

- hwyluso cydweithio â phartneriaid yn y diwydiant i gyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy ac arloesol o fewn y sector.
- cynnig gwasanaethau ymgynghori am ddim i gyhoeddiadau hen a newydd fel ei gilydd ar faterion yn ymwneud â chanllawiau ar gyfraith y cyfryngau, cyllid, a'r cyfryngau newydd. .

**47.** Dywedodd Dr Rachel Howells (gynt o'r Port Talbot Magnet) wrth y Pwyllgor pa mor hanfodol oedd hyfforddiant i'r sector hyperleol :

> "I think communities are going to have to step up here and fill this gap, so training is going to be essential for those people. Legal training is essential, and the (Pembrokeshire) Herald is a great example of perhaps not having that knowledge and not having the resources to oversee people who don't have the training, which is what's happening. I'm sure you're aware that the Herald's been through the courts recently for naming a sexual assault victim—or identifying one, sorry. I think that just shines a light, really, on the fact that that training and that oversight is very difficult to come by in these small organisations.
>
> For the Magnet, where, equally, we didn't have access to enough trained people, what that did to us was make us more cautious. You don't want a sector that's too cautious and too boring, either. You need one that's rambunctious and standing up to those in authority."

**48.** Dywedodd Media Wales wrth y Pwyllgor na all cyfryngau rhanbarthol, yng Nghymru yn arbennig, ond elwa ar gael dull mwy cydweithredol nag sydd wedi'i weld yn y blynyddoedd diwethaf. Awgrymodd Paul Rowlands, Prif Olygydd De Cymru gyda Trinity Mirror, wrth y Pwyllgor y dylid sefydlu rhyw fath o rwydwaith

rhannu deunydd a fyddai'n caniatáu i ddarparwyr hyperleol sicrhau ffrwd refeniw o'r papurau cenedlaethol neu sefydliadau fel Trinity Mirror, ynghyd â chydweithio â mentrau hyperleol drwy rannu arbenigedd dadansoddeg Trinity Mirror. Ymhelaethodd Alison Gow (Prif Olygydd [digidol] Trinity Mirror Regionals) ar y cyfle i gydweithio, gan ddweud:

> "If a hyperlocal had a story … that they wanted to work on and didn't necessarily have the resources … I would be really open to working with them, and that story getting syndicated, because we have a syndication department, and making sure there was a revenue share around that. […] We haven't got a formal syndication agreement with hyperlocals, but it's certainly one that we could have a talk about."

**49.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod yn ystyried y posibilrwydd o ariannu gwasanaeth gwifren newyddion i Gymru a fyddai'n cwmpasu gwaith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Dywedodd fod hwn yn deillio o'r syniad gan Dasglu Digidol y Cynulliad – dan arweiniad Leighton Andrews – a argymhellodd fod y Cynulliad yn sefydlu "gwasanaeth cynnwys integredig gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a sianelau eraill (fel cylchlythyrau e-bost pwrpasol) i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl Cymru". Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "Unless we have the available resource and unless we could get local government to contribute, and get other organisations and bodies to contribute, it would be very expensive to roll out a newswire service that would cover all areas of news provision. So, I think there's potential to start with Government and the Assembly, given that the Llywydd has given a very strong indication that she believes that there is a lack of reporting of what happens here, and given that we in Government are concerned that the UK media is not capturing in the right way, in an accurate way, what's happening in Wales. So, I think we could do something together to begin with, with Government and the Assembly, but then potentially widen it and roll it out in a way that I outlined earlier, with the idea of hubs."

**50.** Mae'r Pwyllgor hwn wedi argymell yn y gorffennol y dylai'r BBC ystyried buddsoddi mewn gwasanaeth "gwifren" i ddarparu newyddion lleol y gall sefydliadau'r cyfryngau lleol ei ddefnyddio ar faterion lle mae newyddiaduraeth leol wedi dirywio, fel adroddiadau ar gynghorau a llysoedd lleol. Cynigiwyd hwn fel dewis amgen yn lle ffurf bresennol cynlluniau'r BBC i wella ei sylw i ddemocratiaeth leol (gweler isod).

## Ein Barn – Cymorth anariannol i newyddiaduraeth newyddion

Fel i ni ddweud yn gynharach yn yr adroddiad hwn, er bod darparwyr newyddion hyperleol yn hynod bwysig yng nghyd-destun y sector newyddiaduraeth newyddion ehangach, ni ellir disgwyl iddynt lenwi'r bwlch a adawyd yn sgil absenoldeb cyfryngau print cynhenid cadarn yng Nghymru. Mae'r sector yn cynnwys rhan fach ond gwerthfawr o dirwedd newyddiaduraeth newyddion Cymru ac, fel y cyfryw, dylid ei gefnogi a'i annog lle bynnag y bo modd. Rydym wedi nodi uchod sut y credwn y gallai'r sector sicrhau sylfaen ariannol gadarnach. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r dystiolaeth y gallai mathau eraill o gefnogaeth gynyddu gwerth allbwn newyddiadurol y sector yn sylweddol - o ran maint ac ansawdd.

Yn ddealladwy, o gofio natur ar lawr gwlad y sector, nid yw llawer o'r sefydliadau'n gallu manteisio ar lefel briodol o arbenigedd a gallant fod yn agored i gamgymeriadau sy'n eu gwneud yn agored i gamau cyfreithiol. Gall hyn wneud sefydliad yn or-ofalus, sydd yn ei dro yn gallu cael effaith negyddol ar ansawdd ei allbwn.

Rydym yn croesawu parodrwydd Trinity Mirror i gydweithio o fewn y sector ac rydym yn eu hannog i archwilio hyn cyn belled ag y bo modd; mae eu hawgrym o gytundeb syndicâd ffurfiol rhyngddynt hwy neu ddarparwyr newyddion cenedlaethol eraill a darparwyr newyddion hyperleol Cymru yn arbennig o ddiddorol. Drwy hwyluso'r broses o rannu arbenigedd newyddiadurol a gwybodaeth leol yn effeithiol, gallai cytundeb o'r fath fod yn ddatblygiad sylweddol i sector newyddiaduraeth newyddion Cymru yn ei gyfanrwydd a dylid ei archwilio'n llawn.

Croesawn gydnabyddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet o'r ffaith nad yw cyfryngau'r DU yn rhoi digon o sylw i ddigwyddiadau yng Nghymru. Rydym yn croesawu hefyd ei syniadau ynghylch sut i fynd i'r afael â'r broblem hon, boed hynny trwy wasanaeth gwifren newyddion neu fel arall.

### ARGYMHELLIAD

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hwyluso cysylltiad rhwng cynrychiolwyr y sector hyperleol, Media Wales a darparwyr newyddion mawr eraill i ymchwilio i feysydd lle gallent gydweithio a llunio cytundebau syndicâd.

# 6. Gweithgarwch Llywodraeth Cymru

**51.** Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd - gan gynnwys y diwydiannau creadigol. Ers ei benodi ym mis Tachwedd 2017 mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon bellach yn gyfrifol am ddiwylliant, creadigrwydd a'r celfyddydau ynghyd â pholisi darlledu. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am reoleiddio'r cyfryngau.

**52.** Ym mis Mawrth 2016, argymhellodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Pedwerydd Cynulliad - a derbyniodd Llywodraeth Cymru mewn egwyddor – y dylid sefydlu fforwm cyfryngau annibynnol. Wrth wneud ei argymhelliad dywedodd y Pwyllgor:

> "Yn 2012, gwnaethom sylwadau ar dystiolaeth a gawsom ynghylch capasiti Llywodraeth Cymru i ymdrin â pholisi cyfryngau. Rydym yn dal o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn mwy o gapasiti yn y maes hwn, yn enwedig o gofio pwysigrwydd diwylliannol ac economaidd sector y cyfryngau i Gymru.
>
> Ar ben hynny, rydym yn nodi bod Panel Cynghori Llywodraeth Cymru ar Ddarlledu wedi argymell yn 2014 y dylid creu Cyngor Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus newydd i Gymru i oruchwylio'r cyfryngau yng Nghymru. Rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwn."

**53.** Pwysleisiodd y Pwyllgor y dylai rôl y fforwm :

> "…gynnwys, ymysg pethau eraill, adolygu, monitro a chloriannu darpariaeth Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru a rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru. Dylai ddefnyddio arbenigedd ar draws sectorau'r cyfryngau a'r byd academaidd."

**54.** Ym mis Mehefin 2016, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd (Alun Davies AC) mewn datganiad Cyfarfod Llawn y bwriad i sefydlu fforwm annibynnol ar gyfer y cyfryngau, i gynghori Llywodraeth Cymru. Wrth ateb cwestiwn ar rôl y fforwm dywedodd:

> "O ran y fforwm cyfryngau annibynnol-ac rwyf yn dweud ei fod yn fforwm cyfryngau yn hytrach na dim ond yn fforwm darlledu-mae'n bwysig bod gennym leisiau annibynnol sy'n siarad ag awdurdod, ar sail gwybodaeth, ac sy'n siarad yn agored am y cyngor y maent yn ei ddarparu i mi fel Gweinidog. … Yn sicr, fy mwriad i yw y bydd hyn yn gweithredu mewn ffordd gwbl agored a thryloyw. Nid yw'n fwriad i

> hwn fod yn fforwm sy'n osgoi penderfyniadau anodd neu'n fforwm sy'n rhoi cyngor a fydd ddim ond yn cael ei weld gan y Gweinidog yn amodol ar gais rhyddid gwybodaeth. Nid wyf am ddilyn y trywydd hwnnw. Yr hyn yr wyf am ei weld yw trafodaeth fwy agored, a thryloyw sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch dyfodol y cyfryngau yng Nghymru."

**55.** Mewn tystiolaeth lafar dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

> "The appointment process is being undertaken. I think Alun Davies is very keen to see a chair appointed this side of Christmas. The chair will then assist in the appointment process of other members, which will happen as soon as possible once that chair is appointed."

**56.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor hefyd y gallai fforwm y cyfryngau ystyried materion yn cynnwys ei syniad am wasanaeth gwifren newyddion i Gymru:

> "The work of the media forum, I expect, will focus primarily on issues concerning the BBC and the charter and S4C, and also the role of digital in the media. I would also hope that the forum would be able to assess the ideas that are being put forward not just by myself, but also by the Assembly Commission, and the forum could potentially form an early view on the effectiveness of the BBC's proposal for local news journalism to be shared."

**57.** Cyn i Ken Skates AC ddod yn aelod o'r llywodraeth, cadeiriodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a oedd yn ystyried rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru. Roedd argymhellion y grŵp yn cynnwys:

- Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu arolwg annibynnol i fapio anghenion pobl Cymru o ran y cyfryngau. Dylai'r arolwg hwn lywio polisi ar y cyfryngau ar draws pob sector, gan gynnwys technolegau presennol a rhai sy'n datblygu.

- Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fforwm annibynnol i gynghori ar bolisi mewn perthynas â'r cyfryngau yng Nghymru. Dylai'r fforwm hwn ddefnyddio arbenigedd o bob rhan o sectorau'r cyfryngau. Dylai ei ddiben fod i edrych i'r dyfodol ac i gynghori ar faterion ar draws pob rhan o'r cyfryngau.

- Fel rhan o'i rôl, dylai'r fforwm annibynnol ymchwilio i fodelau busnes cynaliadwy ar gyfer y cyfryngau print yng Nghymru.

**58.** Fodd bynnag, pan roddodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon newydd, yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas AC PC, dystiolaeth i'r Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, dywedodd:

> "The media forum—and I have not had an opportunity to discuss this yet with the Cabinet Secretary, for obvious reasons—the idea is that this will provide further advice on the policy for media and broadcasting. It's not anticipated that there will be any additional cost, because the members of the forum will not be remunerated.
>
> I will speak with you quite frankly, as I intend to do in all my responsibilities—I'm not yet convinced that this is a valuable initiative in terms of the development of broadcasting and media policy generally, for which I have responsibility. I'm not convinced that it is preferable to talking in an open and frank way with all the media platforms that we have, and I would want to see a clear business case for why a forum of this kind would be a useful tool for Welsh Government in carrying out its overall responsibilities for oversight of media, broadcasting and communication generally in Wales, and that it would benefit the media participants.
>
> …
>
> I made it clear at the beginning that I've taken a decision that I'm not creating any more quangos or quasi quangos or forums that will add to the public expense of running what is a relatively small budget. My emphasis is on delivery, and I've yet to be convinced—. I'm not clear in my mind what this media forum would do that would add to the greater understanding or effectiveness of media in Wales."

**59.** Mewn llythyr dilynol i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:

> "Nid wyf wedi fy argyhoeddi y byddai creu fforwm neu grŵp arall yn dod â budd ychwanegol. Rwyf am symleiddio'r ffyrdd o weithio ar draws fy mhortffolio a bod yn gyson wrth wneud hynny, yn unol â'r broses ddiweddar o ddod â nifer o Fyrddau Cynghori Economaidd a Thrafnidiaeth i ben. Rwy'n edrych ar barhau i feithrin y perthnasau cryf sy'n bodoli eisoes rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau allanol. Byddaf yn cwrdd ag unigolion a grwpiau amrywiol sy'n berthnasol i fy mhortffolio ac yn cymryd cyngor ganddynt. Ymhellach i'r drafodaeth

yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor, gallaf gadarnhau nad oedd sefydlu fforwm y cyfryngau annibynnol yn ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru."

## Ein Barn – gweithgarwch Llywodraeth Cymru

Gwnaed argymhelliad i sefydlu Fforwm Cyfryngau Annibynnol mor bell yn ôl â 2014 a nodwyd bod gallu Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn broblem mor bell yn ôl â 2012. Ym mis Mehefin 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth i'r Cynulliad ei bod yn bwriadu sefydlu fforwm, ar ôl derbyn argymhelliad i'r perwyl hwn gan y Pwyllgor blaenorol. Croesawyd y cyhoeddiad hwn, ar lawr y Cynulliad, gan yr Aelodau bryd hynny.

Ers hynny, mae Gweinidogion wedi siarad yn frwdfrydig am y potensial roedd yn ei gynnig i ddarparu cyngor tryloyw ac arbenigol ar ystod o faterion yn ymwneud â'r cyfryngau yng Nghymru. Felly, mae'n siomedig mai ychydig iawn o gynnydd a wnaed tuag at ei sefydlu a bod cyfleoedd i'r fforwm i gynghori Llywodraeth Cymru yn effeithiol eisoes wedi cael eu colli.

Felly, mae penderfyniad y Gweinidog newydd i roi'r polisi hwn o'r neilltu yn destun pryder mawr i ni. Credwn nid yn unig fod cyfle yn cael ei golli, ond rydym yn llawn mor bryderus ynglŷn â'r ffordd ffwrdd â hi y cyhoeddwyd y penderfyniad a'r dadleuon disylwedd a ddefnyddiwyd i'w gefnogi. Ni chynigiodd y Gweinidog unrhyw esboniad go iawn am ei benderfyniad ac ni roddodd unrhyw ddadansoddiad o pam y dylai polisi a gafodd gefnogaeth eang ar draws y Cynulliad gael ei roi o'r neilltu yn awr.

Rydym hefyd yn bryderus am y modd y cyhoeddwyd y penderfyniad. Er ein bod yn ddiolchgar bod y Gweinidog wedi hysbysu'r Pwyllgor yn uniongyrchol, teimlwn serch hynny y byddai wedi dangos mwy o barch at y Cynulliad i gyhoeddi'r penderfyniad trwy ddatganiad llafar. Cyhoeddwyd y penderfyniad gwreiddiol yn y modd hwnnw a'n barn ni yw y dylai penderfyniad i newid y polisi gael ei gyhoeddi i'r Cyfarfod Llawn hefyd. Yna, gallai'r Gweinidog fod wedi egluro ei benderfyniad yn fwy manwl, gan gynnwys unrhyw drefniadau amgen y mae'n bwriadu eu gweithredu. Byddai'r Aelodau wedi cael y cyfle i holi'r Gweinidog a bodloni eu hunain am y rhesymau dros ei benderfyniad.

Rydym yn rhannu pryder y Gweinidog ynghylch sefydlu cyrff cyhoeddus newydd a drud, ond fe bwysleisiodd ef ei hun fod cost y fforwm hwn yn debygol o fod yn fach iawn. Y tu hwnt i hyn, ychydig iawn o wybodaeth sydd wedi'i rhoi i esbonio sut yr eir i'r afael â materion capasiti ac arbenigedd, a nodwyd gan ddau Bwyllgor y Cynulliad a Phanel Cynghori Darlledu'r Llywodraeth. Yn hytrach na

chyngor gan fforwm tryloyw, arbenigol ac atebol, bydd y Gweinidog yn cael cyngor gan wahanol "unigolion a grwpiau" nas enwyd. Mawr obeithiwn y byddant yn cynnwys pobl sy'n meddu ar arbenigedd yng ngwir ystyr y gair ac sy'n gallu cynnig arloesedd.

Ein gobaith yw y bydd y Gweinidog yn ailystyried ei benderfyniad ac yn dod i'r casgliad bod fforwm yn cynnig cyfle go iawn i ddwyn ynghyd arbenigedd, ystyried atebion arloesol ac ymchwilio i fodelau busnes cynaliadwy ar gyfer cyfryngau print (a chyfryngau eraill) yng Nghymru. Gallai fforwm hefyd chwarae rhan ddefnyddiol yn yr adolygiad o Wasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol y BBC, sy'n cael sylw yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Os nad yw'r Gweinidog yn barod i ailystyried ei benderfyniad, yna mae'n rhaid iddo ddangos bod gan Lywodraeth Cymru ddigon o allu ac arbenigedd yn y maes hwn a sut y bydd y cyngor y mae'n ei dderbyn ar gael yn dryloyw i lywio'r drafodaeth gyhoeddus a dadleuon yn y Cynulliad. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i gomisiynu adolygiad i fapio anghenion cyfryngau pobl Cymru a chynnig ffyrdd arloesol o wella argaeledd newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru.

## ARGYMHELLIADAU

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried ei benderfyniad i beidio â sefydlu fforwm cyfryngau annibynnol.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, naill ai fel rhan o rôl fforwm annibynnol neu'n uniongyrchol ei hun, yn ymchwilio i fodelau busnes cynaliadwy ar gyfer newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, naill ai drwy sefydlu fforwm annibynnol neu'n uniongyrchol ei hun, yn adolygu Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol y BBC.

# 7. Cynlluniau'r BBC ym maes democratiaeth leol

**60.** Ym mis Mai 2016, cyhoeddodd y BBC nifer o gynlluniau i wella'r gwaith o graffu ar ddemocratiaeth leol yn y DU. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys:

- Sefydlu gwasanaeth gohebu i gwmpasu awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r BBC yn bwriadu ariannu 150 o newyddiadurwyr o 2017, a byddant yn cael eu cyflogi gan sefydliadau newyddion lleol cymwys i ddarparu gwasanaeth i ddarparwyr newyddion lleol yn cynnwys y BBC.

- Cronfa newyddion fideo a fydd yn caniatáu i wefannau cyfryngau newyddion lleol eraill gael mynediad at gynnwys newyddion fideo a sain lleol y BBC.

- Bydd y BBC yn buddsoddi mewn uned newyddiaduraeth ddata a fydd yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y diwydiant i ddatblygu arbenigedd a darparu cynnwys i bob darparwr newyddion lleol.

- Archwiliad annibynnol i bennu faint o gynnwys y wasg leol a ddefnyddir gan y BBC ar ei phlatfformau cyfryngau, ac fel arall. Bydd canlyniad yr archwiliad annibynnol hwn yn sail i adolygiad o ymdrechion y BBC i wella sut y caiff straeon a ffynonellau eu cysylltu a'u priodoli.

**61.** Mewn adroddiad blaenorol – "Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru" - mynegodd y Pwyllgor bryderon y gallai'r cynlluniau i ymgorffori newyddiadurwyr mewn sefydliadau cyfryngau sy'n bodoli eisoes achosi'r sefydliadau hynny i ymateb trwy dorri eu darpariaeth eu hunain yn y meysydd hyn. O ganlyniad, argymhellodd y Pwyllgor fod y BBC yn adolygu'n feirniadol ei chynlluniau ac awgrymodd y dylid ystyried bod math o wasanaeth "gwifren" newyddion yn ddefnydd amgen o'r cyllid.

**62.** Yn ymateb y BBC i adroddiad y Pwyllgor, cyflwynodd yr Arglwydd Hall nodyn[3] yn rhestru pum maes allweddol o'r cynnig, a fyddai'n gwneud y canlynol:

> "...serve to mitigate local news organisations cutting back their provision."

Rhoddodd y nodyn sicrwydd:

[3] Llythyr dyddiedig 10 Mawrth 2017 gan yr Arglwydd Hall at Gadeirydd y Pwyllgor

> "The purpose of the LDRS [Local Democracy Reporting Service] is to provide an additive contribution to the UK's local journalism. It is not the BBC's intention to use license fee payers' money to fund the market's existing activities."

**63.** Rhoddodd fanylion hefyd am y tri mecanwaith sydd ar waith i adolygu'r gwasanaeth, gan gynnwys adolygiad blynyddol o holl bartneriaethau newyddion lleol y BBC, a'u bwriad i wahodd adborth gan y diwydiant.

**64.** Dywedodd ymateb yr Arglwydd Hall hefyd:

> "Embedding the LDRS journalists within local news organisations will deliver greater value to licence fee payers. It boosts plurality and ensures the benefits reach a wide range of local news organisations. It is also a more collaborative approach and supports the BBC's wider commitment to be a more open partner."

**65.** Mae'r NUJ wedi galw am sicrwydd na chaiff y newyddiadurwyr newydd a ariennir gan y BBC eu defnyddio i lenwi swyddi gwag. Dywedodd Dr Williams wrth y Pwyllgor fod cynlluniau'r BBC yn fuddiol ar y cyfan, ond y gallent, o bosibl, gymell rhagor o doriadau.

**66.** Mae Media Wales wedi croesawu'r cynlluniau hyn, ac mae wedi dweud wrth y Pwyllgor bod cryn hyder ar draws y cyfryngau rhanbarthol y bydd cydweithio o'r fath yn helpu i liniaru effaith y gostyngiad yn nifer y newyddiadurwyr a welwyd yn sgil amodau'r farchnad, ac na all y cyfryngau rhanbarthol, yng Nghymru yn benodol, ond elwa ar fwy o gydweithio nag a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

**67.** Dywedodd Richard Gurner o'r Caerphilly Observer wrth y Pwyllgor ei fod yn gyndyn o wneud cais i groesawu newyddiadurwr a ariennir gan y BBC oherwydd yr holl waith Adnoddau Dynol sydd ynghlwm wrth gyflogi aelod newydd o staff. Cododd y cwestiwn hefyd a fydd sefydliadau newyddion llai, fel y Caerphilly Observer, sy'n cymryd rhan yn y cynllun ond nad ydynt yn rhoi lle i newyddiadurwyr, yn gallu dylanwadu ar y math o gynnwys y bydd y newyddiadurwyr newydd hyn yn ei greu.

**68.** Cafwyd awgrym amgen gan Peter Curtis o Bay TV, Abertawe, ynghylch sut i ddefnyddio cyllid y BBC i'r prosiect democratiaeth leol pan roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor:

> "But, yes, I believe that hyperlocal newsgathering is another growth area that we're just going to see explode, and some method needs to be put together, so almost like a press association for Wales, where they can

> contribute into a centre hub and take it away again, free of charge. That would obviously need some support to set it up and keep it going, but it's exactly the sort of thing that the BBC, in their submission, are talking about with their news hub, which is quite restrictive to broadcasters like me, and their local democracy reporters."

**69.** Ar 7 Rhagfyr, ar ôl i'r Pwyllgor orffen casglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, cyhoeddodd y BBC mewn datganiad i'r wasg:

> "Fe fydd yr 11 newyddiadurwr - pob un yn adrodd ar waith dau gyngor - yn gohebu ar waith awdurdodau lleol ym mhob rhan o Gymru. Mae'r BBC yn ariannu'r cynllun newydd ac mae'r cytundebau yng Nghymru wedi eu dyfarnu i Trinity Mirror a Newsquest yn dilyn proses dendro gystadleuol.
>
> [...]
>
> Er mwyn dyfarnu'r cytundebau gohebu ar ddemocratiaeth, bu raid i'r 58 sefydliad newyddion llwyddiannus ymgyrraedd â meini prawf llym gan gynnwys sicrwydd ariannol ac enw da am newyddiaduraeth nerthnasol yn yr ardal benodol honno. Gwnaethpwyd y penderfyniad i ddyfarnu'r cytundebau gan uwch olygyddion y BBC ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban.
>
> Y cam nesaf i'r cwmnïau llwyddiannus fydd cychwyn recriwtio, gyda'r bwriad o fod yn weithredol dros y misoedd nesaf."

## Ein Barn – Cynlluniau'r BBC ym maes democratiaeth leol

Mewn adroddiad blaenorol, mynegwyd pryder gennym ynghylch cynlluniau i osod newyddiadurwyr y BBC mewn sefydliadau cyfryngau lleol. Roeddem yn ofni y gallai hyn gael canlyniad anfwriadol gyda'r sefydliadau sy'n croesawu newyddiadurwyr yn tocio eu darpariaeth eu hunain o ganlyniad.

Nodwn y bydd cynlluniau'r BBC i wella'r broses o ohebu ar ddemocratiaeth leol yn y DU drwy'r tîm gohebu newydd yn weithredol cyn bo hir. Nodwn hefyd ymateb y BBC i'n hargymhelliad blaenorol a'r sicrwydd a roddwyd gan y gorfforaeth a'r mecanweithiau y mae wedi'u rhoi ar waith i adolygu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'i hymateb a oedd y BBC wedi rhoi ystyriaeth ddifrifol i wasanaeth math "gwifren" fel i ni ei argymell.

Mae'r ffaith mai Trinity Mirror a Newsquest yw'r unig sefydliadau sydd wedi elwa'n uniongyrchol yn ategu'r pryderon a glywsom, sef na fyddai darparwyr llai a llai sefydledig yn gallu manteisio ar y fenter hon.

O ystyried y pryderon a fynegwyd yn ystod ein hymchwiliad blaenorol, ac a ailadroddwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn, ynghylch canlyniadau anfwriadol y Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol, dylai unrhyw adolygiad roi cryn sylw i asesu a yw'r rhannau o'r cynlluniau sydd â'r nod o liniaru'r canlyniadau hyn yn effeithiol. Teimlwn fod cryn risg y bydd y cynllun hwn yn cynhyrchu cynnwys unffurf, ac er y bydd yn ychwanegiad derbyniol i'r ecoleg newyddion leol, ni fydd yn disodli'r newyddiaduraeth ymgyrchu, ymchwiliol sydd wedi ei cholli trwy gau a chwtogi ar bapurau newydd lleol.

Er ei bod yn iawn y dylai'r BBC gynllunio i adolygu'r gwasanaeth, credwn fod y pryderon am doriadau yn cyfiawnhau cyfnod adolygu byrrach. Yna dylid gwneud canfyddiadau unrhyw adolygiad yn gyhoeddus. At hynny, wrth adolygu'r gwasanaeth, nid yn unig y dylid rhoi ystyriaeth lawn i wella'r model presennol ond i weithredu model arall, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Er ein bod wedi argymell gwasanaeth gwifren yn flaenorol, dylid rhoi'r un ystyriaeth i'r posibilrwydd o hybiau newyddion cymunedol fel yr argymhellwyd yn gynharach.

## ARGYMHELLIAD

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod y BBC yn adolygu'r Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol ar ôl iddo fod yn weithredol am 6 mis. Dylai'r adolygiad ystyried yn llawn modelau amgen ar gyfer y gwasanaeth, gan gynnwys y "gwasanaeth gwifren" rydym wedi ei argymell yn flaenorol a hybiau newyddion. Dylai hefyd archwilio pryderon y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau lletya i ddisodli'r ddarpariaeth bresennol, yn hytrach na darparu cynnwys ychwanegol. Dylid cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad yn llawn.

# 8. Newyddiaduraeth newyddion yn y Gymraeg

**70.** Mae nifer o gyhoeddiadau Cymraeg a llu o sefydliadau diwylliannol sy'n gweithio gyda'r iaith Gymraeg yn cael cymorth grant gan Lywodraeth Cymru - yn aml drwy Gyngor Llyfrau Cymru. Ym mis Ebrill 2012, daeth Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am hybu'r defnydd o'r Gymraeg a gweinyddu grantiau i gefnogi'r iaith. Bwrdd yr Iaith Gymraeg oedd yn gyfrifol am hyn cynt.

**71.** Roedd cyfanswm y grantiau a roddwyd i lyfrau a chylchgronau Cymraeg yn 2015-16 yn £1,634,870, a hynny'n cynnwys £190,000 i gefnogi'r wefan newyddion dyddiol Golwg360. Cyfanswm y grantiau a roddwyd i lyfrau a chylchgronau Saesneg yn 2015-16 oedd £667,674.

**72.** Gellir ystyried y papurau bro Cymraeg ymysg y cyhoeddiadau hyperleol cymunedol cyntaf, wedi'u sefydlu i raddau helaeth yn ystod y 1970au fel mentrau cymunedol dielw dan ofal gwirfoddolwyr. Mae pris y cyhoeddiad ac incwm hysbysebu yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r papurau hyn, ac nid oes mwy na rhyw 2,000 o gopïau'n cael eu hargraffu fel arfer, ond maent hefyd yn derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

**73.** Yn ôl Ifan Morgan Jones, "oherwydd nawdd cyhoeddus, mae newyddiaduraeth cyfrwng Cymraeg yn mwynhau rhyw fath o oes aur". Fodd bynnag, mae'n nodi bod y "ffaith bod adnoddau i'w gweld yn brin yn golygu bod newyddiadurwyr sy'n gweithio trwy'r Gymraeg yn amheus o effeithiolrwydd y cyfryngau Cymraeg i ddal egin-ddemocratiaeth yng Nghymru i gyfrif". Mae hefyd yn tynnu sylw at ddiffyg lluosogrwydd, "oherwydd mae'r gwefannau hyn yn ymdrin â llawer o'r un pynciau, heb fod ganddynt yr adnoddau i ymchwilio'n ddyfnach". Mae'n cynnig y dylai cyhoeddiadau Cymraeg sy'n cael cyllid gan Gyngor Llyfrau Cymru ac nad ydynt yn perthyn i'r BBC gyhoeddi eu cynnwys mewn un hyb newyddion Cymraeg. Dywedodd Dylan Iorwerth o Golwg360 wrth y pwyllgor y byddai'n fodlon cydweithio ar hyb digido.

## Ein Barn – newyddiaduraeth newyddion Cymraeg

Rydym yn croesawu'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi newyddiaduraeth Gymraeg ac yn cydnabod ei fod yn amhrisiadwy i'r sector. Er mwyn sicrhau bod y sector yn parhau i fwynhau'r hyn y mae Mr Morgan Jones yn ei ddisgrifio fel "oes aur" dylid parhau â'r cymorth hwn ar y lefel bresennol o leiaf.

Rydym yn cytuno ag awgrym Ifan Morgan Jones o un hyb Cymraeg. Byddai hyn nid yn unig o fudd i sefydliadau Cymraeg presennol, trwy ganiatáu iddynt rannu

cynnwys, ond gallai hefyd annog sefydliadau eraill i greu cynnwys Cymraeg ar gyfer yr hyb. Byddai hefyd yn ategu ein hargymhelliad cynharach ynglŷn â hybiau newyddion lleol a ariennir gyda chyllid cyhoeddus.

## ARGYMHELLIADAU

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i fuddsoddiad parhaus mewn newyddiaduraeth Gymraeg ar y lefel bresennol o leiaf.

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Cyngor Llyfrau Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o greu hyb newyddion Cymraeg hygyrch lle gall cyhoeddiadau Cymraeg nad ydynt yn perthyn i'r BBC ac sy'n cael eu cefnogi gan Gyngor Llyfrau Cymru gyhoeddi eu cynnwys.

# 9. Teledu lleol

**74.** Ym mis Mehefin 2011, datgelodd Adran Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y byddai chwe ardal drefol yng Nghymru ymhlith y 65 ledled y DU lle'r oedd darlledu teledu'n lleol yn dechnegol bosibl, ac felly byddent yn cael gwneud cais am y trwyddedau teledu lleol cyntaf i'w cyflwyno yn 2012. Dyma'r argymhellion:

- Caerdydd;
- Abertawe;
- Bangor;
- Yr Wyddgrug;
- Caerfyrddin;
- Hwlffordd.

**75.** O'r rhain, mae tair (Caerdydd, Abertawe a Gogledd Cymru – yn ardal ddarlledu'r Wyddgrug) yn darlledu ar hyn o bryd.

**76.** Darparwyd arian cyhoeddus ar gyfer costau cychwynnol, ond rhaid i'r gwasanaethau fod yn hunangynhaliol ar ôl hynny. Cafodd y newyddion ei groesawu gan rai, a oedd yn credu y dylai Cymru fanteisio ar y cyfle i ddatblygu adnoddau cymunedol masnachol cryf drwy'r gwasanaethau teledu lleol hyn. Mae eraill wedi dadlau ei bod hi'n annhebygol y bydd digon o wylwyr i'r cynlluniau allu denu digon o refeniw hysbysebu. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddweud ei bod yn gobeithio y bydd y cynlluniau o fudd i'r sector diwydiannau creadigol, ond y dylid rhoi'r flaenoriaeth i amddiffyn gwasanaethau teledu ar lefel genedlaethol yng Nghymru.

**77.** Bwriad y fframwaith a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU yw sicrhau bod gwasanaethau teledu lleol trwyddedig yn gallu cael sbectrwm fforddiadwy a lle amlwg ar ddewislenni rhaglenni electronig. Yn gyfnewid am y buddiannau hyn, mae'n ofynnol i wasanaethau lleol ddarparu cynnwys lleol sy'n diwallu anghenion pobl leol ac sy'n fwy perthnasol i'w bywydau bob dydd. Ac, fel rhan o'r fframwaith teledu lleol, mae'r BBC yn cyfrannu hyd at £40 miliwn - hyd at £25 miliwn tuag at gostau cyfalaf adeiladu'r seilwaith teledu lleol a hyd at £5 miliwn y flwyddyn dros dair blynedd i gaffael cynnwys lleol.

**78.** Yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor, mae Bay TV Swansea yn nodi llwyddiant ei weithgarwch darlledu ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'n nodi bod ganddo 2 filiwn a mwy o wylwyr ar draws y byd yn gwylio'r newyddion y mae'n ei ddarlledu ar Facebook ar hyn o bryd. Mae'n disgrifio fel y mae modd darparu gwasanaeth darlledu cyhoeddus i gymunedau Cymru am gyfran fach iawn o'r gost draddodiadol drwy wneud hyn. Mae'n mynd ymlaen i awgrymu y gallai cymunedau lleol ledled Cymru sefydlu eu sianeli cymunedol eu hunain ar gyfryngau cymdeithasol cymunedol, a dywed:

> "A better option would be perhaps for the National Assembly for Wales to investigate if a network of locally based not for profit community organisations could be instituted to broadcast local television to communities in Wales via social media to sufficiently high standards and be regulated by Ofcom Wales."

**79.** Mae hefyd yn nodi opsiwn arall fel a ganlyn :

> "…for another national English language channel for Wales would be linking the existing LTVN (local TV network) stations together Bay TV (Swansea) Ltd, Made In Cardiff and Made in North Wales to provide news and programming for the whole of Wales using the British Sky Broadcasting platform. And perhaps this too could be supported by the Welsh Government."

**80.** Cynhaliwyd sesiynau gydag ITV Cymru Wales, y BBC a theledu lleol hefyd. Fodd bynnag, heblaw am y drafodaeth ar gynlluniau democratiaeth leol y BBC, ni chafwyd fawr o sôn am deledu lleol. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor y disgrifiad a ganlyn o sefyllfa ariannol Swansea Bay TV gan reolwr yr orsaf:

> "When we're set up, we're given three years of funding, and the idea is that in those three years we build our commercial model to a stage where we won't need the support of the BBC any longer. That isn't and never was a viable option, and now, as we go into year 2, I'm £6,000 a month down on where I was in year 1. I don't know the total amounts and what we're looking at in advertising revenue from mainstream advertising on the channel, but that's the well that we're looking down."

**81.** Ers i'r Pwyllgor gynnal ei ymchwiliad, mae Swansea Bay TV wedi cael ei brynu gan That's TV - rhwydwaith deledu leol sy'n eiddo i That's Media a leolir ym Manceinion. Yn dilyn hyn collwyd rhagor o swyddi, a deellir bod y perchnogion newydd wedi gwneud cais i Ofcom i leihau ymhellach yr ymrwymiadau cynnwys lleol yn nhrwydded yr orsaf. Mae'r newyddion hwn yn dystiolaeth bellach o'r achos

busnes hynod heriol a wynebir gan deledu lleol, a'r problemau strwythurol mewn teledu lleol sydd wedi bodoli ers y dechrau.

## Ein Barn – Teledu lleol

Mae'n deg dweud y bu cryn amheuaeth o'r cychwyn ynghylch a allai teledu lleol fod yn llwyddiannus y tu allan i Lundain neu ardaloedd metropolitan mawr eraill. Er ein bod yn croesawu ymdrechion i gefnogi teledu lleol, credwn fod y disgwyliadau a roddwyd ar y rhai sydd wedi derbyn trwyddedau yng Nghymru yn afrealistig ac mae cynaliadwyedd ariannol hirdymor y sector teledu lleol yn amheus. Ymhellach, mae'r gwendidau yn ecoleg y cyfryngau lleol y bwriadwyd i deledu lleol fynd i'r afael â nhw wedi dwysáu yn ystod y blynyddoedd ers sefydlu'r gorsafoedd hynny.

Fel y disgrifiwyd uchod, mae'r refeniw hysbysebu sydd ar gael i sefydliadau newyddion lleol yng Nghymru wedi'i gyfyngu gan y nifer cyfyngedig o ddarpar wylwyr. O ganlyniad, mae ymdrechion Llywodraeth y DU, heb gael eu teilwra i anghenion penodol iawn Cymru, yn annhebygol o gael yr effaith ddymunol. Credwn fod hyn, law yn llaw â'r cyfleoedd darlledu rhad a gynigir drwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn golygu bod angen i Lywodraeth y DU ailedrych ar y sector cyfryngau lleol yn ei gyfanrwydd yng ngoleuni methiant y cynllun teledu lleol i gynnig ateb hirdymor i'r diffyg lluosogrwydd a phrinder newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn y maes hwn.

### ARGYMHELLIAD

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac yn ei hannog i ailedrych ar y sector cyfryngau lleol yn ei gyfanrwydd yng ngoleuni methiant y cynllun teledu lleol i gynnig ateb hirdymor i'r diffyg lluosogrwydd a phrinder newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn y maes hwn.

# Atodiad - Tystion a Thystiolaeth Ysgrifenedig

## Sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yma: www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15157

Mae gwe-ddarllediadau ar gael yn: www.senedd.tv

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 24 Mai 2017 | Emma Meese, Rheolwr y Ganolfan, Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd<br>Dr Andy Williams, Uwch Ddarlithydd, Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd<br>Dylan Iorwerth, Cyfarwyddwr Golygyddol, Golwg<br>Robert Rhys, Cadeirydd, Barn |
| 14 Mehefin 2017 | Professor Elin Haf Gruffydd-Jones, Athro Cyfryngau a'r Diwydiannau Creadigol, Prifysgol Aberystwyth<br>Ifan Morgan Jones, Darlithydd mewn Newyddiaduraeth, Prifysgol Bangor |
| 22 Mehefin 2017 | Daniel Glyn, Rheolwr Gorsaf, Made in Cardiff<br>Peter Curtis, Rheolwr Gorsaf, Bay TV (Swansea Limited)<br>Phil Henfrey, Pennaeth Newyddion a Rhaglenni, ITV Cymru Wales<br>Zoe Thomas, Golygydd Cynnwys, Newyddion ITV Cymru Wales |
| 6 Gorffennaf 2017 | Llion Iwan, Pennaeth Cynnwys a Dosbarthu, S4C<br>Rachel Howells, Golygydd, Port Talbot Magnet<br>Thomas Sinclair, Golygydd, Pembrokeshire Herald<br>John Toner, Trefnydd Cenedlaethol Cymru NUJ a Gweithiwr Llawrydd |

| | |
|---|---|
| | Nick Powell, Aelod - Cyngor Gweithredol Cymru NUJ / Tad y Capel, ITV Cymru<br>Martin Shipton, Aelod - Cyngor Gweithredol NUJ Cymru / Cadeirydd Capel NUJ Grŵp Trinity Mirror |
| 12 Gorffennaf 2017 | Paul Rowland, Prif Olygydd, Trinity Mirror South Wales<br>Richard Gurner, Caerphilly Observer |
| 20 Gorffennaf 2017 | Rob Taylor, Golygydd, Wrexham.com<br>Graham Breeze, Partner yn MyTown Media Ltd. (perchnogion safleoedd ar-lein MyWelshpool a MyNewtown) |
| 20 Medi 2017 | Douglas McCabe, Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Cyhoeddi a Thechnoleg ar gyfer Enders Analysis (trwy gyswllt fideo) |
| 28 Medi 2017 | Alan Edmunds, Cyfarwyddwr Golygyddol, Trinity Mirror Regionals.<br>Alison Gow, Prif Olygydd (Digidol), Trinity Mirror Regionals. |
| 12 Hydref 2017 | Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith<br>Hywel Owen, Arweinydd Tîm Polisi'r Cyfryngau, Llywodraeth Cymru<br>Paul Kindred, Uwch Ddadansoddwr Polisi, Llywodraeth Cymru |

## Tystiolaeth ysgrifenedig

Daeth tystiolaeth i'r pwyllgor drwy gydol yr ymchwiliad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad y Pwyllgor rhwng 11 Ebrill 2017 a 12 Mai 2017. Er mwyn gweld y cyflwyniadau i'r ymgynghoriad:
http://senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=259

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| NJW01 | Prifysgol Bangor |
| NJW02 | BBC Cymru |
| NJW03 | Media Wales |
| NJW04 | Neil Taylor |
| NJW05 | NUJ Cymru |
| NJW06 | S4C (Cymraeg yn Unig) |
| NJW07 | Caerphilly Observer |
| NJW08 | Paul Rowland, Trinity Mirror |
| NJW09 | Dr. Andy Williams, Prifysgol Caerdydd - Newyddion Cymunedol Hyperleol |
| NJW10 | Dr. Andy Williams, Prifysgol Caerdydd |
| NJW11 | ITV |
| NJW12 | Y Sefydliad Materion Cymreig |
| NJW13 | Emma Meese, Prifysgol Caerdydd |
| NJW14 | Tystiolaeth ychwanegol gan Dr Andy Williams ac Emma Meese, Prifysgol Caerdydd |

## Ymgynghori ychwanegol

Yn ogystal, bu'r Pwyllgor yn ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch sut y gellid defnyddio £100,000 o arian gan Lywodraeth Cymru orau er mwyn cefnogi newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru. Daeth saith o ymatebion ysgrifenedig i law. Edrychwch ar yr ymatebion trwy'r linc ganlynol: www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=284

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| NJ01 | Llanelli Online |
| NJ02 | West Wales News Review |
| NJ03 | Tim Strang |
| NJ04a | Prifysgol Caerdydd |
| NJ04b | Prifysgol Caerdydd |
| NJ05 | Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr |
| NJ06 | Y Sefydliad Materion Cymreig |